

Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad	3
I bwy mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol	3
Ble i gael cymorth a chyngor ar wneud cwynion ac apeliadau.....	4
Diffiniadau.....	4
Beth yw apêl weinyddol?	4
Beth yw apêl academiaidd?.....	5
Cwynion ac apeliadau a allai fod yn berthnasol i fwy nag un categori	5
Pryderon eraill nad ydynt yn gwynion neu apeliadau	5
Gwybodaeth ategol.....	5
Adran 2: Gweithdrefnau cwynion myfyrwyr.....	12
Gwybodaeth ategol.....	12
Cam 1 Rhoi gwybod i'r Brifysgol am eich pryderon	12
Cam 2 Gwneud cwyn ffurfiol	13
Cam 3 Gwneud cais am adolygiad.....	14
Cwblhau Gweithdrefnau.....	16
Adran 3: Gweithdrefnau apeliadau gweinyddol i fyfyrwyr.....	17
Gwybodaeth ategol.....	17
Cam 1 Cwestiynu penderfyniad sy'n anghywir yn eich barn chi	17
Cam 2 Cyflwyno apêl ffurfiol	18
Cam 3 Gwneud cais am adolygiad.....	19
Cwblhau Gweithdrefnau.....	21
Adran 4: Gweithdrefnau apeliadau academiaidd i fyfyrwyr	22
A. Cyflwyniad.....	22
B. Y Weithdrefn Apeliadau Academiaidd Gyffredinol	22
C. Apeliadau yn erbyn marc Aseiniad wedi'i Farcio gan Diwtor (TMA)	25
D. Apelio yn erbyn canlyniad modiwl.....	29
E. Apeliadau yn erbyn canlyniad arholiad ar gyfer gradd ymchwil.....	29
F. Apeliadau yn erbyn penderfyniad Panel Dethol neu Banel Addasrwydd i Ymarfer (rhaglenni Nyrsio Proffesiynol a Gwaith Cymdeithasol yn unig)	30

G. Gweithdrefn Adolygu Apeliadau Academaidd.....	30
Adran 5: Cwynion sy'n ymwneud â Chymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored	33
Atgyfeirio eich cwynion yn erbyn Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored	33
Cwblhau Gweithdrefnau.....	36
Crynodeb o'r newidiadau	37
Hydref 2015	37
Hydref 2016	37
Tachwedd 2016	37
Ebrill 2018.....	37
Chwefror 2019	37
Atodiad 1 (o'r Gweithdrefnau Apeliadau Academaidd i Fyfyrwyr).....	38
Awdurdodau Academaidd Dirprwyedig	39
Atodiad 2 (o'r Gweithdrefnau Apeliadau Academaidd i Fyfyrwyr).....	40
Y weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiad gan Banel Adolygu Apeliadau Academaidd y Senedd	40
Cwblhau Gweithdrefnau.....	44
Eglurhad pellach.....	45
Fformat amgen.....	45

Adran 1: Cyflwyniad

Nod Y Brifysgol Agored yw rhoi profiad dysgu rhagorol i bob myfyriwr sy'n eu galluogi i gyrraedd eu nodau astudio. Rydym yn cydnabod fod pethau'n mynd o chwith o bryd i'w gilydd a, phan fydd hynny'n digwydd, rydym yn croesawu'r cyfle i wneud yn iawn amdanynt cyn gynted â phosibl. Weithiau, ni fydd myfyrwyr neu ymholwyr yn cael yr ymateb neu'r penderfyniad yr oeddent wedi gobeithio amdano gan y Brifysgol, a byddant yn credu ei fod yn anghywir. Os oes gennych her neu broblem sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd ar eich cydberthynas â'r Brifysgol, neu os oes gennych reswm dros gredu bod penderfyniad rydym wedi'i wneud mewn perthynas â chi yn anghywir, cewch eich annog i gysylltu â ni cyn gynted â phosibl er mwyn i ni allu unioni'r sefyllfa. Efallai na fyddwn yn gallu bodloni eich disgwyliadau bob amser, a gobeithio y byddwch yn deall y rhesymau dros hynny, ond os byddwch yn teimlo nad ydym wedi ymateb yn briodol i'ch her neu bryder, cewch gyfle i'w godi mewn apêl ffurfiol.

Mae'r Weithdrefn Gwyno ac Apelio i Fyfywr yn eich galluogi i dynnu sylw'r Brifysgol at faterion sy'n peri pryder o ran eich profiad dysgu neu benderfyniadau sy'n gysylltiedig â'ch mynediad at ddysgu, neu'ch profiad dysgu, ac yn darparu systemau er mwyn datrys y pryderon hynny. Mae'r weithdrefn yn cynnwys cam anffurfiol, cam ffurfiol a cham adolygu.

Nod y gweithdrefnau yw bod yn syml, yn glir ac yn deg i bawb. Caiff Cwynion ac Apeliadau (ffurfiol ac anffurfiol) eu trin yn sensitif, gydag ystyriaeth briodol o ran cyfrinachedd. Ni fydd unrhyw fyfyriwr a fydd yn cyflwyno cwyn neu apêl dan y weithdrefn hon yn cael ei roi dan anfantais gan y Brifysgol, ni waeth beth fo'r canlyniad.

Os ydych yn fyfyriwr anabl ac yn dymuno cael copi o'r weithdrefn hon mewn fformat amgen, cysylltwch â'r [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#). Dylech hefyd gysylltu â'r Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr os hoffech drafod unrhyw addasiadau rhesymol i'r gweithdrefnau hyn er mwyn ystyried eich anabledd ac unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ai angen arnoch er mwyn codi a bwrw ymlaen â'ch cwyn neu'ch apêl oherwydd eich anabledd.

I bwy mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol

Mae'r Gweithdrefnau Cwyno ac Apelio i Fyfywr yn berthnasol i bob ymholwr, ymgeisydd, myfyriwr israddedig, ôl-raddedig ac ymchwil cofrestredig, myfyriwr prentisiaeth cofrestredig (Lloegr), Dysgwyr Cymwysterau Galwedigaethol a Microgymwysterau, a chyn-fyfyriwr.

Yr Iaith Gymraeg

Mae croeso Siaradwyr Cymraeg sy'n byw yng Nghymru gyflwyno cwynion ac apeliadau yn Gymraeg. Gellir rhoi gwybod am gwynion cam cyntaf dros y ffôn ar y rhif canlynol **029 2047 1019**, drwy e-bost i StudentCaseworkoffice@open.ac.uk neu drwy fersiwn Gymraeg y ffurflen ar-lein sydd ar gael yng Nghanolfan Gymorth StudentHome. Ymatebir yn Gymraeg i gwynion y rhoddir gwybod amdanynt yn Gymraeg, ac ni chaiff cwynion a geir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Ble i gael cymorth a chyngor ar wneud cwynion ac apeliadau

Gall myfyrwyr gael gafael ar y weithdrefn hon mewn fformatau amgen a cheisio cymorth, cyngor ac arweiniad ar wneud cwyn neu apêl ffurfiol o adran [Cwynion ac Apeliadau](#) y Ganolfan Gymorth, y [Rhwydwaith Ysgol i Raddedigion](#) (ar gyfer myfyrwyr ymchwil) a'r [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#).

Er y gall Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored roi rhywfaint o gymorth i fyfyrwyr, ni allant roi unrhyw gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion ac apeliadau unigol gan fyfyrwyr.

Yn hytrach na chwynion gan fyfyrwyr unigol neu mewn grwpiau, neu yn ogystal â hynny, gall Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored ystyried mynd i'r afael â materion ar ran myfyrwyr yn gyffredinol. Ymdrinnir â'r rhain dan amodau [Cytundeb Cydberthynas Y Brifysgol Agored](#).

Gellir cysylltu ag Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored drwy'r dulliau canlynol:

Ffôn: +44 (0)1908 652026

E-bost: ousa@open.ac.uk

Swydd: Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored, PO Box 397, Walton Hall, Milton Keynes MK7 6BE

Gwefan: <http://www.open.ac.uk/ousa/>

Diffiniadau

Os oes gennych bryder yr hoffech ei godi gyda'r Brifysgol, y peth pwysig i chi ei wneud yw cysylltu â'r adran yn y Brifysgol rydych wedi bod yn ymwneud â hi cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi gwybod iddynt am y broblem. Bydd y Brifysgol yn defnyddio'r diffiniadau hyn i benderfynu ar y weithdrefn fwyaf addas i ni ei defnyddio wrth ymdrin â'r gŵyn rydych wedi'i nodi. Gofynnwch i'r [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#) am gyngor ar ba weithdrefn sy'n addas ar gyfer eich sefyllfa os nad ydych yn siŵr.

Beth yw Cwyn?

Mae'r Brifysgol yn diffinio cwyn fel mynegiad o anfodlonrwydd, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, sy'n ymwneud â darparu rhaglen astudio neu wasanaeth academiaidd neu weinyddol cysylltiedig nad yw'n apêl yn erbyn penderfyniad.

Byddai pryderon am ddarparu gwasanaeth neu gyfleuster neu fethiant i ddarparu gwasanaeth neu gyfleuster, lle mae safon y gwasanaeth neu'r cyfleuster wedi mynd islaw'r safon y gellid ei disgwyl yn rhesymol, neu lle mae disgwyliad rhesymol y byddai'r gwasanaeth neu'r cyfleuster yn cael ei ddarparu, yn cael eu cwmpasu yn y Weithdrefn Gwyno.

Beth yw apêl weinyddol?

Diffiniad y Brifysgol o apêl weinyddol yw 'cais am adolygiad o benderfyniad a wnaed gan unigolyn neu gorff sydd â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynglŷn ag unrhyw agwedd ar fynediad myfyriwr at ddysgu neu'i brofiad dysgu gyda'r Brifysgol nad yw'n benderfyniad academiaidd.'

Caiff penderfyniadau ynglŷn â phrosesau cofrestru, atebolrwydd o ran ffioedd, cymorth ariannol, trefniadau eithriadol ac addasiadau rhesymol nad ydynt o natur academiaidd eu cwmpasu yn y Weithdrefn Apeliadau Gweinyddol.

Beth yw apêl academiaidd?

Diffiniad y Brifysgol o apêl academiaidd yw cais am adolygiad o benderfyniad a wnaed gan gorff academiaidd sydd â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynglŷn â derbyniadau, asesu, cynnydd myfyrwyr a dyfarniadau.

Byddai penderfyniadau ynglŷn â gofynion mynediad, addasiadau rhesymol ar gyfer addysgu ac asesu myfyrwyr sydd ag anabledau, rheolau dilyniant, camymddwyn academiaidd, marciau aseiniadau, canlyniadau modiwlau, cyflwyno traethodau ymchwil a dyfarnu a dosbarthu cymwysterau yn cael eu cwmpasu yn y Weithdrefn Apeliadau Academiaidd.

Cwynion ac apeliadau a allai fod yn berthnasol i fwy nag un categori

Os byddwch yn nodi cwyn neu apêl nad yw'n dod yn naturiol o dan gategori cwyn nac apêl, neu os yw eich pryder yn cynnwys materion sy'n ymwneud â chwyn ac apêl, bydd y Brifysgol yn eich cyngori ynglŷn â pha faterion a gaiff eu hystyried o dan ba weithdrefn. Bydd hyn yn digwydd ni waeth pa weithdrefn a ddefnyddiwyd gennych i nodi eich pryder yn ffurfiol.

Efallai y byddwn yn ymdrin â'ch pryder o dan y weithdrefn amgen os bydd hynny'n addas. Gallai'r Brifysgol benderfynu ystyried pob mater ar y cyd, yn arbennig os bydd canfyddiad cwyn yn debygol o ddylanwadu ar benderfyniad ynglŷn ag apêl er enghraifft. Rhoddir gwybod i chi am unrhyw oblygiadau sy'n gysylltiedig â dilyn dwy weithdrefn ar unwaith, a gall y Brifysgol ohirio un weithdrefn wrth aros am ganlyniad y llall.

Pryderon eraill nad ydynt yn gwynion neu apeliadau

Mae gweithdrefnau ar wahân ar gyfer materion sy'n ymwneud ag ymddygiad myfyrwyr, bwlio ac aflonyddu, materion disgyblu staff a chydberthnasau personol rhwng staff a myfyrwyr. Mae'r holl weithdrefnau hyn ar gael ar y [wefan Polisiâu a Rheoliadau Myfyrwyr](#).

Rydym yn croesawu adborth fel rhan o'n hymrwymiad yn Siarter y Myfyrwyr i gynnwys myfyrwyr yn y broses o wella profiad y myfyriwr. Am ragor o wybodaeth ar sut y gallwch gyfrannu eich adborth, edrychwch ar ein gwefan [Siarter y Myfyrwyr](#):

Gwybodaeth ategol

Myfyrwyr anabl

Os ydych yn fyfyrwr anabl ac yn dymuno cael copi o'r weithdrefn hon mewn fformat amgen, cysylltwch â'r [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#). Dylech hefyd gysylltu â'r Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr os hoffech drafod unrhyw addasiadau rhesymol i'r weithdrefn hon er mwyn ystyried eich anabled ac unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen arnoch wrth nodi a pharhau â'ch cwyn oherwydd eich anabled.

Terfynau amser

Mae terfynau amser ar gyfer nodi eich cwyn neu'ch apêl ac erbyn pryd y mae'n rhaid i'r Brifysgol roi ymateb llawn. Unwaith y byddwn wedi delio â'ch cwyn neu'ch apêl, mae terfynau amser pellach, ac os byddwch yn dal i deimlo'n anfodlon neu os bydd rheswm gennych dros gredu nad yw'r penderfyniad yn gywir, yna mae'n rhaid i chi gyfeirio eich cwyn neu'ch apêl i'r cam nesa

Ni chaiff unrhyw gŵyn, apêl neu atgyfeiriad a dderbynnir ar ôl i'r terfyn amser ddod i ben ei ystyried oni bai fod amgylchiadau eithriadol wedi eich atal rhag bodloni'r terfyn amser. Ceir rhagor o fanylion yn y gweithdrefnau.

Mae'n rhaid i chi dynnu sylw'r Brifysgol at y gŵyn cyn gynted â phosibl ac, yn unrhyw achos, o fewn 28 diwrnod i'r broblem godi.

Unwaith y byddwn wedi ymateb i'ch cwyn, mae terfynau amser pellach y mae'n rhaid i chi eu dilyn er mwyn atgyfeirio eich cwyn i'r cam nesaf, os byddwch yn dal yn anfodlon.

Os byddwch yn bryderus y byddwch yn profi rhywfaint o anfantais wrth nodi cwyn, ni ddylech oedi cyn nodi eich cwyn. Dylech gysylltu â'r [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#) cyn gynted â phosibl, er mwyn rhoi gwybod i ni am eich pryder a thrafod yr opsiynau sydd ar gael i chi er mwyn sicrhau bod modd i chi nodi eich cwyn heb fod dan anfantais.

Ystyrir bod unrhyw gŵyn neu atgyfeiriad a ddaw i law ar ôl y terfyn amser yn hwyr ac ni fyddwn yn ystyried y gŵyn honno neu'r atgyfeiriad hwnnw oni bai fod amgylchiadau eithriadol wedi eich atal rhag cyflwyno eich cwyn neu ei hatgyfeirio i'r cam nesaf o fewn y terfyn amser. Er enghraifft, os byddwch wedi bod yn ddirifol sâl, byddwn yn ystyried hyn wrth asesu a oes modd derbyn eich cwyn. Bydd angen i chi roi tystiolaeth, megis nodyn meddygol, i ddangos nad oedd modd i chi gyflwyno eich cwyn o fewn y terfyn amser a roddwyd.

Cyfrinachedd

Ymdrinnir â'ch cwyn neu'ch apêl yn gyfrinachol a dim ond y staff sydd angen gwybod eich manylion er mwyn ymchwilio ac ymateb i'r materion rydych wedi'u codi a fydd yn ymwybodol ohonynt.

Mae'n bosibl y caiff y wybodaeth rydych yn ei darparu i ategu eich cwyn neu'ch apêl ei rhannu ag ardaloedd eraill o'r Brifysgol er mwyn datrys eich cwyn neu'ch apêl, er enghraifft gellir rhannu tystiolaeth o amgylchiadau personol eithriadol â'r Grŵp Eithriadau Asesu.

Os bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth o amgylchiadau personol eithriadol, er enghraifft yn ymwneud ag iechyd aelod o'r teulu, mae'n well os na fyddwch yn cyflwyno tystiolaeth feddygol fanwl am y person hwnnw oherwydd bydd angen i'r Brifysgol Agored hysbysu'r person hwnnw ein bod yn prosesu ei ddata. Os yw'n bosibl, dylech ond cyflwyno tystiolaeth am yr effaith y mae'r amgylchiadau wedi'i chael arnoch yn uniongyrchol.

Caiff unrhyw unigolyn a enwir mewn cwyn neu sy'n rhan o'r penderfyniad sy'n destun apêl wybod am fanylion y gŵyn neu'r apêl a bydd ganddo hawl i ymateb fel rhan o'r ymchwiliad.

Cadw data

Caiff gohebiaeth, tystiolaeth a ffeiliau achos mewn perthynas â chwynion ac apeliadau eu cadw gan y Brifysgol am gyfnod o 6 mlynedd o ddyddiad y cam gweithredu diwethaf.

Datrys anghydfodau yn gynnar ac mewn ffordd amgen

Mewn rhai sefyllfaoedd lle nad yw myfyrwyr yn teimlo'n fodlon bod y Brifysgol yn rhoi'r profiad rhagorol iddynt y maent yn ei ystyried yn rhesymol i'w ddisgwyl, gall cyfryngu fod yn ffordd amgen o ddatrys materion sy'n peri pryder. Mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr drafod eu pryderon â rhywun sy'n annibynnol ar y materion a gweithio tuag at ateb cyfeillgar. Mae'n gwbl gyfrinachol; dim ond y canlyniadau y cytunwyd arnynt a gaiff eu rhannu â'r Brifysgol. Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'n addas ym mhob sefyllfa, a gall gymryd rhywfaint o amser (tua 3 mis) i'w drefnu.

Os hoffech ystyried defnyddio gwasanaethau cyfryngu i ddatrys eich pryderon, dylech ystyried cysylltu â'r [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#) i drafod hyn ymhellach. Os cytunir fod cyfryngu yn briodol, yna bydd y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr yn darparu pwynt cyswllt rhyngoch chi, y cyfryngwyr a'r Brifysgol. Caiff y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr ffurfiol ei rhewi tan y canlyniad. Os byddwch yn rhoi cynnig ar gyfryngu ond nad yw'n datrys y problemau mewn ffordd sy'n foddhaol i'r ddau barti, gallwch barhau â'ch cwyn o'r un cam lle cafodd ei rewi.

Astudio mewn sefydliad partner

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr sy'n astudio am gymhwyster gyda'r Brifysgol Agored mewn sefydliad addysg arall ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad hwnnw yn gyntaf. O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd gennych hawl i wneud cwyn bellach i'r Brifysgol Agored unwaith y byddwch wedi cwblhau gweithdrefnau'r sefydliad hwnnw. Os felly, caiff y weithdrefn ar gyfer atgyfeirio eich pryder i'r Brifysgol Agored ei hamlinellu yn y wybodaeth a roddir i chi gan eich sefydliad.

Astudio ar gyfer Prentisiaeth (Lloegr)

Dylai myfyrwyr Prentisiaeth sydd am wneud cwyn i'r Brifysgol Agored gysylltu â'u Tiwtor Ymarfer neu Rheolwr Cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth yn y lle cyntaf. Fel arall, gellir dilyn y broses gwyno safonol ar gyfer myfyrwyr: <https://help.open.ac.uk/how-to-make-a-complaint-or-appeal>. Dylai materion sy'n ymwneud â chyflogaeth nad ydynt yn rhan o'r brentisiaeth nac yn cyfrannu ati gael eu cyfeirio at y cyflogwr; fodd bynnag, mae'n bosibl y gall y Tiwtor Ymarfer neu Reolwr Cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth gynnig cymorth. Gallwch anfon e-bost i apprenticeships@open.ac.uk.

At hynny, mae'n bosibl y gall myfyrwyr prentisiaeth hefyd atgyfeirio eu hachos at Dîm Cwynion yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (ESFA) er mwyn ymchwilio iddo drwy: complaints.esfa@education.gov.uk. Cyn cyflwyno cwyn i'r Asiantaeth, byddem yn argymhell bod myfyrwyr yn trafod eu pryderon â'r llinell gymorth ar gyfer Prentisiaethau er mwyn cael cyngor ar b'un a yw hwn yn gam priodol i'w gymryd (Ffôn: 0800 015 0400; e-bost: nationalhelpdesk@apprenticeships.gov.uk).

Yn yr un modd â'r holl fyfyrwyr eraill, os bydd myfyriwr prentisiaeth yn cwblhau gweithdrefn y Brifysgol ac yn dal yn anfodlon ar y canlyniad, mae ganddo hawl i wneud cais am adolygiad gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch.

Pan fydd prentis yn dymuno apelio yn erbyn gradd Asesiad Man Gorffen, dylai'r prentis ddilyn gweithdrefn apelio'r Sefydliad Asesu Prentisiaeth Cofrestredig (RoAAO).

Astudio gyda FutureLearn

Dylai dysgwyr microgymwysterau sydd am drafod materion sy'n ymwneud â'u profiad ar-lein gyda gwefan FutureLearn ddilyn y weithdrefn gwyno ar gyfer FutureLearn yn y lle cyntaf. Os byddwch dal yn anfodlon ar ôl i chi gwblhau gweithdrefn gwyno FutureLearn, gallwch ofyn i'r Brifysgol Agored ystyried eich cwyn drwy e-bostio StudentCaseworkoffice@open.ac.uk.

Dysgwyr Cymwysterau Galwedigaethol

Dylai dysgwyr sy'n astudio Cymhwyster Galwedigaethol gyda'r Brifysgol Agored gyfeirio at y Gweithdrefnau Cwynion ac Apeliadau ar y wefan [Polisiau Cymwysterau Galwedigaethol](#) yn y lle cyntaf.

Cwynion dienw

Ni chaiff cwynion dienw eu derbyn gan y Brifysgol gan mai dim ond pan fydd modd casglu gwybodaeth gefndir lawn y gallwn ymchwilio i fater yn llawn. Os hoffech nodi materion pryder yn ddienw, gallwch wneud hynny drwy ein [Ffurflen Adborth i Fyfyrwyr](#). Ni fyddwn yn gallu ymateb i unrhyw gŵyn neu adborth a roddir yn anhysbys. Fodd bynnag, os yw'n fater sy'n ymwneud â budd y cyhoedd, gallwch wneud cwynion o dan [Bolisi Datgelu er Budd y Cyhoedd \(Chwythu'r Chwiban\) y Brifysgol](#).

Cwynion trydydd partïon

Dim ond os bydd y myfyriwr neu'r myfyrwyr wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i'r trydydd parti weithredu ar eu rhan y gallwn ymchwilio i gwynion gan drydydd partïon ar ran myfyriwr neu fyfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys Aelodau Seneddol, cynghorwyr cyfreithiol ac aelodau o'r teulu. Os oes gennych gyfundeb eiriolaeth ar waith eisoes, yna ystyrir hyn yn ganiatâd derbyniol.

Cwynion gan grwpiau

Os ydych yn grŵp o fyfyrwyr sy'n awyddus i gyflwyno cwyn ar y cyd, yna mae'n rhaid i chi enwebu llefarydd i gyfathrebu â'r Brifysgol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob un sy'n cwyno roi caniatâd ysgrifenedig i'r llefarydd, ac mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r caniatâd hwn gyda chŵyn y grŵp. Dim ond os bydd yr un broblem yn effeithio ar bob myfyriwr yn y grŵp yn yr un ffordd y byddwn yn ymdrin â'r gŵyn fel cwyn gan grŵp. Un ymateb a roddir i gŵyn gan grŵp.

Pan gyflwynir cwyn gan grŵp ac nad yw'n briodol ymdrin â hi fel cwyn unigol, caiff ei thrin fel cwyn unigol a wnaed gan bob aelod o'r grŵp. Byddwn yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr am y penderfyniad hwn, yn ogystal â'r rhesymau drosto, ac yn rhoi cyfle iddynt egluro pam, yn eu barn hwy, y dylem ymdrin â'r gŵyn fel cwyn gan grŵp.

Cwynion am fwy nag un mater

Os ydych wedi gwneud cwyn am fater sy'n effeithio ar feysydd gwasanaeth gwahanol, caiff y gŵyn ei chydlynu gan y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr mewn cydweithrediad â'r adrannau perthnasol. Fel arfer, un ymateb a gewch i'ch cwyn.

Os byddwch wedi gwneud cwyn sy'n cynnwys dau fater ar wahân neu fwy, caiff pob rhan o'ch cwyn ei throsglwyddo i'r maes gwasanaeth perthnasol. Byddwch fel arfer yn cael ymateb ar wahân ar gyfer pob mater yn eich cwyn.

Cwynion ac apeliadau i'r Is-Ganghellor, swyddogion y Brifysgol ac uwch aelodau o staff

Er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb i'ch cwyn neu'ch apêl cyn gynted â phosibl ac yn y modd mwyaf effeithiol posibl, dylech gyflwyno eich cwyn neu'ch apêl yn y dull a nodir yng Ngweithdrefnau Cwyno ac Apelio Myfyrwyr Y Brifysgol Agored. Os byddwch yn dewis cyflwyno eich cwyn neu'ch apêl i'r Is-Ganghellor, unrhyw un o Swyddogion y Brifysgol neu unrhyw uwch aelod arall o staff yn y Brifysgol, caiff ei chydnabod â'i hatgyfeirio i'r [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#). Wedyn, gweinyddir eich cwyn neu'ch apêl yn unol â Gweithdrefn Gwyno ac Apelio'r Brifysgol Agored i Fyfywyr a bydd unrhyw derfyn amser i'r Brifysgol ymateb yn dechrau o'r adeg pan ddaw'r gŵyn neu'r apêl i law yn y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr.

Camau cyfreithiol

Nod y gweithdrefnau cwyno ac apelio hyn yw ein helpu i ddatrys problemau ac anawsterau mor hawdd a chyflym â phosibl. Rydym yn argymhell i chi beidio â chymryd camau cyfreithiol yn erbyn Y Brifysgol Agored nes i'r gweithdrefnau hyn gael eu cwblhau. Mae hyn yn cynnwys mynd â'ch cwyn neu'ch apêl i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol o dan y Cynllun Dyfarnu Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Uwch 2004, os bydd yn gymwys. Os byddwch yn cymryd camau cyfreithiol yn erbyn y Brifysgol cyn cwblhau'r gweithdrefnau hyn, byddwn yn gofyn i chi oedi nes y byddant wedi'u cwblhau yn unol â rheolau gweithdrefnau sifil, sy'n annog y partïon i geisio datrys problemau heb achos llys lle bynnag y bo modd.

Cwynion neu apeliadau anghymwys

Bydd y Brifysgol yn gwrthod cwyn neu apêl heb ystyried y materion yn llawn os dyfernir bod y gŵyn neu'r apêl yn anghymwys.

Gellir ystyried cwyn neu apêl yn anghymwys os bydd un neu fwy o'r disgrifiadau isod yn berthnasol:

- Mae'r gŵyn yn hwyr ac nid oes unrhyw amgylchiadau eithriadol dros fynd dros y terfyn amser;
- Nid yw'r gŵyn neu'r apêl yn datgelu unrhyw ffeithiau, tystiolaeth neu amgylchiadau eraill a allai fod yn sail resymol dros gŵyn yn erbyn y Brifysgol neu apêl yn erbyn penderfyniad Y Brifysgol Agored;

- Mae'r materion y mae'r gŵyn neu'r apêl yn ymwneud â hwy wedi'u trafod yn barod ac mae gweithdrefnau'r Brifysgol wedi cael eu cwblhau;
- Mae'n cael ei hymchwilio mewn ffordd afresymol sy'n debygol o beri aflonyddwch, gofid, anghyfleustra, oedi neu gost afresymol;
- Mae'n cynnwys cyhuddiadau cwbl ddi-sail yn erbyn staff Y Brifysgol Agored neu unigolion sy'n gysylltiedig ag aelodau o staff Y Brifysgol Agored sy'n honni gwahaniaethu, aflonyddu, twyll, anonestrwydd, gwrthdaro buddiannau, amhriodoldeb rhywiol neu unrhyw gamymddwyn difrifol arall.

Os penderfynir bod cwyn neu apêl yn anghymwys, bydd y Brifysgol yn ysgrifennu atoch i egluro ein bod yn rhoi'r gorau i ystyried y gŵyn neu'r apêl a nodi ein rhesymau dros wneud hynny. Os ydych yn anghytuno â'r penderfyniad hwnnw, rhaid i chi ysgrifennu at y [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#) o fewn deg diwrnod gwaith i'r penderfyniad hwnnw gan nodi eich rhesymau dros anghytuno. Wedyn, caiff hyn ei ystyried gan Uwch Reolwr sy'n gyfrifol am weinyddu cwynion ac apelïadau, a fydd yn penderfynu a gaiff y gŵyn neu'r apêl ei hystyried ai peidio.

Safonau ymddygiad disgwylidig

Bydd staff Y Brifysgol Agored yn ymdrin â'ch cwyn neu'ch apêl mewn modd cwrtais a llawn parch a, lle bynnag y bo modd, mewn ffordd sy'n datrys unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl ac mor effeithiol â phosibl. Rydym yn deall y byddwch o bosibl yn teimlo'n drist neu'n flin pan fyddwch yn ffonio neu'n ysgrifennu atom i wneud cwyn neu apêl, ond mae gan staff Y Brifysgol Agored hawl i gael eu trin mewn modd cwrtais a llawn parch, ac ni fyddant yn delio â'ch cwyn neu'ch apêl os byddwch yn gweiddi arnynt, yn eu bygwth neu'n eu difrïo. Mae fel arfer o fudd i bawb os bydd myfyrwyr yn nodi eu cwynion neu'n cyflwyno eu hapeliadau yn y modd mwyaf digynnwrf a rhesymol â phosibl o dan yr amgylchiadau, fel y gallwn ddeall y broblem yn gyflym a, lle y bo'n briodol, ymddiheuro am unrhyw gamgymeriadau a gwneud iawn am yr hyn sydd wedi mynd o'i le.

Os na fyddwch yn fodlon ar ymddygiad yr aelod o staff sy'n ymateb i'ch cwyn neu'ch apêl ac os na allwch ddatrys y broblem yn anffurfiol gyda'r unigolyn hwnnw, neu os byddwch wedi gwneud cwyn neu apêl a bod rheswm gennych dros gredu eich bod dan anfantaes o ganlyniad i hynny, dylech wneud cwyn ffurfiol am yr aelod o staff dan sylw cyn gynted â phosibl drwy gysylltu â'r [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#). Os byddwn yn canfod bod rheswm cyfiawn dros eich cwyn yna byddwn yn mynd i'r afael â hi o dan weithdrefnau rheoli staff Y Brifysgol Agored.

Monitro, gwerthuso ac adolygu

Bydd y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr yn goruchwyllo'r broses o olrhain cwynion ac apelïadau ffurfiol a'u hadolygu, a bydd yn sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi mewn modd priodol ar Gronfa Ddata Rheoli Cydberthnasau'r Brifysgol. Caiff cwynion ac apelïadau eu storio mewn man diogel, a staff sydd â chaniatâd priodol yn unig fydd yn gallu cael gafael arnynt.

Defnyddir y wybodaeth a gesglir i sicrhau dealltwriaeth well o'r mathau o gwynion ac apeliadau y mae'r Brifysgol yn eu derbyn a beth yw canlyniadau'r cwynion a'r apeliadau hyn. Caiff ei ddefnyddio i lywio arfer da a sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu cyrraedd. Mae'r data hefyd yn galluogi'r Brifysgol i sicrhau nad yw ein polisiau yn gwahaniaethu yn erbyn myfyrwyr yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol.

Caiff yr holl ddata eu monitro yn unol â pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol a deddfwriaeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Caiff adroddiad blynyddol ei gyflwyno i Senedd y Brifysgol.

Adran 2: Gweithdrefnau cwynion myfyrwyr

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn diffinio cwyn fel mynegiad o anfodlonrwydd, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, sy'n ymwneud â darparu rhaglen astudio neu wasanaeth academaidd neu weinyddol cysylltiedig nad yw'n apêl yn erbyn penderfyniad.

Mae gennych hawl i gwyno am ddarparu gwasanaeth neu gyfleuster neu fethiant i ddarparu gwasanaeth neu gyfleuster, naill ai lle mae safon y gwasanaeth neu'r cyfleuster wedi mynd islaw'r safon y gellid ei disgwyl yn rhesymol neu lle mae disgwyliad rhesymol y byddai'r gwasanaeth neu'r cyfleuster yn cael ei ddarparu.

Cam 1 Rhoi gwybod i'r Brifysgol am eich pryderon

- a) Os oes gennych reswm dros gwyno am unrhyw agwedd ar eich profiad fel myfyriwr, yna dylech roi gwybod i'r maes lle methodd y gwasanaeth am eich anfodlonrwydd cyn gynted â phosibl a dim mwy na 28 diwrnod ar ôl y digwyddiad. Dylech [ddechrau eich cwyn yma](#) er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich rhoi mewn cysylltiad â'r adran gywir yn y brifysgol. Gallwch gyflwyno ffurflen ar-lein neu mae rhifau ffôn hefyd ar gael os yw'n well gennych nodi eich pryder dros y ffôn.
- b) Dylech esbonio eich rheswm/rhesymau dros deimlo'n anfodlon, gan roi tystiolaeth lle y bo'n briodol ac awgrymu'r hyn rydych yn credu y gallai'r Brifysgol ei wneud i unioni'r sefyllfa.
- c) Os yw'r gwasanaeth wedi methu neu os oes diffyg arall na ellir ei ddatrys yn syth na chynnig canlyniad dymunol i chi ar ei gyfer, bydd yr aelod o staff sy'n derbyn y gŵyn, ni waeth ar ba ffurf, yn rhoi gwybod i chi, o fewn tri diwrnod gwaith i gael gwybod am eich pryderon, pa gamau y bydd yn eu cymryd, pryd y dylech ddisgwyl cael ateb, ac ar ba ffurf.

- d) fewn deg diwrnod gwaith i gael eich cwyn, byddwch yn derbyn Neges Canlyniad (drwy e-bost neu lythyr) a fydd yn cynnwys ymateb llawn a manwl i'ch cwyn/cwynion yn ogystal â rhif cyfeirnod. Nes i chi dderbyn y rhif cyfeirnod hwnnw, ni allwch uwchgyfeirio eich cwyn i'r cam ffurfiol.
- e) Os na chaiff y llythyr canlyniad ei anfon o fewn y terfyn amser o ddeg diwrnod gwaith, ac os na fyddwch wedi cael eglurhad am yr oedi, dylech gysylltu â'r Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr i drafod uwchgyfeirio'r gŵyn i'r cam ffurfiol.

Cam 2 Gwneud cwyn ffurfiol

- a) Unwaith y byddwch wedi derbyn y Neges Canlyniad, os na fyddwch o'r farn ein bod wedi cymryd camau rhesymol i ddatrys y mater, neu os nad ydych wedi derbyn neges canlyniad o fewn y terfyn amser (neu'r terfyn amser estynedig), gallwch gychwyn cam ffurfiol y Weithdrefn Gwyno i Fyfywyr. I wneud hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:
- Ysgrifennu at y [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#) neu gwblhau'r [ffurflen ar-lein](#) o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y Llythyr Canlyniad.
 - Egluro pam nad yw'r canlyniad i'r cam anffurfiol wedi datrys y gŵyn. Mae'n rhaid i chi naill ai nodi'r rhif cyfeirnod a roddir yn y Neges Canlyniad neu ddangos bod y terfyn amser (neu'r terfyn amser estynedig) i ymateb wedi mynd heibio. Oni wneir hyn bydd y gŵyn yn cael ei gwrthod.
 - Nodwch yr hyn rydych yn ei gredu y gellir disgwyl i'r Brifysgol ei wneud o fewn rheswm i ddatrys y gŵyn.
 - Cyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd na chafodd ei chyflwyno eisoes i ategu eich cwyn.
- b) Bydd y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr yn cydnabod eich cwyn o fewn tri diwrnod gwaith i'r gŵyn ddod i law. Bydd yn dweud wrthyhch a gafodd eich cwyn ei derbyn ai peidio â'r rhesymau dros ei gwrthod os yw hynny'n berthnasol. Os caiff eich cwyn ei derbyn, cewch wybod pa Uwch Awdurdod y cyfeiriwyd y mater ato a phryd y gallwch ddisgwyl ymateb llawn. Fel arfer, ni ddylai hyn fod yn fwy na pymtheg diwrnod gwaith o'r dyddiad cydnabod, fodd bynnag, cewch wybod os bydd angen estyniad a'r rhesymau dros hynny.
- c) Bydd yr Uwch Awdurdod yn archwilio'r cwynion a wnaed gennych. Bydd yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gennych, yn edrych ar eich cofnod myfyriwr ac yn gofyn am adroddiadau gan staff fel sy'n briodol.
- d) Unwaith yr ymchwiliwyd i'ch cwyn yn llawn, anfonir Llythyr Penderfyniad atoch. Bydd y Llythyr Penderfyniad yn amlinellu materion y gŵyn, llinell amser o'r digwyddiadau, manylion am y wybodaeth neu'r dystiolaeth a ystyriwyd a chanlyniad y gŵyn. Bydd tystiolaeth nad oedd ar gael i chi yn flaenorol ac sydd wedi cael ei hystyried gan yr Uwch Awdurdod yn cael ei darparu i chi, cyhyd â na fyddai hyn yn torri'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- e) Os na dderbynnir eich cwyn, cewch eich hysbysu am y rhesymau dros ei gwrthod.

- f) Os caiff eich cwyn ei derbyn, neu'i derbyn yn rhannol, cewch eich hysbysu o'r camau a gymerir er mwyn gwneud iawn am y mater a'r hyn y bydd y Brifysgol yn ei wneud i atal materion tebyg rhag codi yn y dyfodol.
- g) Os caiff cwyn ei derbyn neu ei derbyn yn rhannol, efallai y bydd yr Uwch Awdurdod hefyd yn gwneud argymhellion o ran gweithdrefnau neu bolisiau sicrhau ansawdd. Byddwn yn rhannu'r argymhellion hyn â chi er gwybodaeth, ac yn eu rhannu ag unrhyw feysydd perthnasol yn y Brifysgol ac i'r Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith.

Cam 3 Gwneud cais am adolygiad

- a) Unwaith y byddwch wedi derbyn Llythyr Penderfyniad yr Uwch Awdurdod, os nad ydych o'r farn bod y Brifysgol wedi ymateb yn rhesymol i'ch cwyn, gallwch ddechrau ar Gam Adolygu'r Weithdrefn Gwyno i Fyfywyr. I wneud hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:
 - Ysgrifennu at y [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#) o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y Llythyr Penderfyniad.
 - Egluro pam eich bod yn dal i deimlo'n anfodlon â chanlyniad eich cwyn.
 - Nodi un neu fwy o'r rhesymau canlynol dros gredu y dylai'r Brifysgol adolygu ei phenderfyniad:
 - ni chafodd tystiolaeth berthnasol ei hystyried; neu
 - cafodd tystiolaeth amherthnasol ei hystyried; neu
 - ni chafodd unrhyw reoliadau, polisiau neu weithdrefnau perthnasol gan y Brifysgol eu cymhwyso'n gywir; neu
 - ni chawsoch eglurhad llawn a chlir o'r rhesymau dros wneud y penderfyniad; neu
 - roedd tuedd, neu duedd debygol, wrth wneud y penderfyniad; neu
 - cafodd y penderfyniad ei wneud gan unigolyn neu gorff nad oedd â'r cyfrifoldeb neu'r awdurdod cywir; neu
 - nid oedd y weithdrefn a ddilynwyd yn deg nac yn ddigonol; neu
 - nid oedd y penderfyniad a wnaed yn deg nac yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau.
 - Cyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd na chafodd ei chyflwyno eisoes i ategu eich cwyn. Os caiff tystiolaeth newydd neu elfen newydd i'r gŵyn ei chyflwyno yn ystod y cam Adolygu, er mwyn bod yn gymwys i'w hystyried ymhellach dylech roi rheswm dilys i esbonio pam nad oedd modd gwneud hyn yn gynharach yn y broses.

Bydd methu â bodloni'r gofynion hyn yn golygu na chaiff y cais am adolygiad ei dderbyn.
- b) Bydd y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr yn cydnabod y cais am adolygiad o fewn tri diwrnod gwaith iddo ddod i law. O fewn 10 diwrnod gwaith i'r gydnabyddiaeth, bydd

Rheolwr Gwaith Achos yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu p'un a yw'r cais am adolygiad wedi cael ei dderbyn ai peidio. Os na chaiff ei dderbyn, rhoddir gwybod i chi beth oedd y rhesymau dros wneud y penderfyniad hwnnw. Cewch gyfle arall i ail-anfon eich cais am adolygiad o fewn 28 diwrnod o dderbyn y llythyr penderfyniad neu o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn cydnabyddiaeth o'ch cais gan y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr, p'un bynnag fo'r cyfnod hiraf.

- c) Pan fydd cais am adolygiad yn bodloni'r gofynion sydd ym mharagraff a) uchod, bydd Rheolwr Gwaith Achos yn cynnal adolygiad trylwyr o'ch cwyn ar ran Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor. Ni fydd yr adolygiad yn ailystyried eich cwyn ond, yn hytrach, bydd yn ystyried yr holl faterion a godwyd mewn perthynas â'ch adolygiad ac yn penderfynu a ddilynwyd y broses gwyno yn gywir. Darperir adroddiad drafft i Gynrychiolydd yr Is-Ganghellor mewn perthynas â'r adolygiad o'ch achos. Bydd y llythyr hwn yn cynnwys:
- Crynodeb o'ch cwyn a'ch rhesymau dros adolygu
 - Cefndir eich cwyn
 - Penderfyniad ynghylch a ddylid cadarnhau eich cwyn, ei chadarnhau'n rhannol, neu beidio â'i chadarnhau
 - Eglurhad o'r rhesymau dros y penderfyniad
 - Argymhellion ar gyfer datrys lle bo hynny'n briodol
- d) Bydd Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor yn ystyried yr adroddiad drafft a gwblhawyd gan y Rheolwr Gwaith Achos. Unwaith y bydd wedi cymeradwyo'r adroddiad, ac o fewn 15 diwrnod i ddyddiad y llythyr cymhwysedd, caiff yr adroddiad ei anfon atoch a'i gopïo i'r Uwch Awdurdod.
- Caiff copi o adroddiad Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor ei anfon atoch chi â'r Uwch Awdurdod.
- e) Os bydd Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor yn penderfynu diddymu penderfyniad yr Uwch Awdurdod, yn llawn neu'n rhannol, caiff y gŵyn ei hailgyfeirio at yr Uwch Awdurdod, gydag argymhellion i ailystyried y gŵyn. Bydd yr Uwch Awdurdod yn cyfathrebu'n uniongyrchol â chi o fewn deg diwrnod gwaith i'r atgyfeiriad er mwyn nodi'r ffordd maent yn bwriadu rhoi argymhellion Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor ar waith. Caiff copi o'r llythyr hwnnw ei anfon at y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr ac, o fewn 28 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr yn y swyddfa, caiff llythyr Cwblhau Gweithdrefnau (gweler isod) ei anfon.
- f) Os caiff penderfyniad yr Uwch Awdurdod ei gadarnhau yn dilyn yr adolygiad, anfonir llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atoch ynghyd ag adroddiad Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor.
- g) Bydd Y Brifysgol Agored yn gwneud pob ymdrech resymol i fodloni'r terfynau amser fel y'u nodir yn y weithdrefn hon; fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen amser ychwanegol ar gyfer achosion cymhleth er mwyn sicrhau bod yr hyn a gyflwynir yn cael ei adolygu'n drylwyr. Os bydd angen eithriad i'r terfyn amser safonol, rhoddir gwybod i chi yn ysgrifenedig am hyn a byddwch yn cael eich hysbysu'n rheolaidd ynaglŷn â phryd y gallwch ddisgwyl ymateb ynghylch y canlyniad.

Cwblhau Gweithdrefnau

Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor yw awdurdod terfynol y Brifysgol o ran cwynion gan fyfyrwyr. Pan fyddwch wedi cwblhau Gweithdrefn Gwyno'r Brifysgol i Fyfyrwyr, os byddwch yn dal yn anfodlon ar y penderfyniad hwn, gallwch gyfeirio eich cwyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch i wneud cais am adolygiad annibynnol o'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cwyn. Mae manylion cyswllt [Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol](#) i'w gweld ar ei gwefan. Caiff y gweithdrefnau ar gyfer atgyfeirio eich achos at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol eu darparu yn y llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Adran 3: Gweithdrefnau apeliadau gweinyddol i fyfyrwyr

Gwybodaeth ategol

Diffiniad y Brifysgol o apêl weinyddol yw cais am adolygiad o benderfyniad a wnaed gan unigolyn neu gorff sydd â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynglŷn ag unrhyw agwedd ar fynediad myfyrwyr i ddysgu neu'u profiad dysgu gyda'r Brifysgol nad yw'n benderfyniad academaidd. Caiff penderfyniadau ynglŷn â phrosesau cofrestru, atebolrwydd o ran ffioedd, cymorth ariannol, trefniadau eithriadol ac addasiadau rhesymol nad ydynt o natur academaidd eu cwmpasu yn y polisi hwn.

Gallwch wneud cais am adolygiad neu apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad lle ceir rhesymau penodol sy'n ymwneud â thegwch neu ddigonolrwydd y gweithdrefnau a ddilynwyd, gan gynnwys ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, cymhwyso'r rheolau yn gywir, y ffordd y cafodd penderfyniad ei gyfleu, tuedd a pha mor rhesymol yw'r penderfyniad a wnaed yn gyffredinol.

Cam 1 Cwestiynu penderfyniad sy'n anghywir yn eich barn chi

- a) Os oes gennych reswm dros gredu bod unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â'ch profiad fel myfyriwr neu brofiad cofrestru yn anghywir, dylech roi gwybod i'r adran yn y Brifysgol lle cafodd y penderfyniad ei wneud, cyn gynted â phosibl. Peidiwch ag aros tan ar ôl y digwyddiad. Ni allwch gwestiynu penderfyniad ddim ond am nad ydych yn cytuno ag ef; mae'n rhaid i chi ddangos pam na chafodd y penderfyniad ei wneud yn unol â pholisïau, gweithdrefnau neu reoliadau perthnasol y Brifysgol.
- b) Er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich rhoi mewn cysylltiad â'r adran gywir yn y Brifysgol, gallwch gyflwyno ffurflen ar-lein drwy'r HelpCentre ar y StudentHome, neu mae rhifau ffôn hefyd ar gael os yw'n well gennych nodi eich pryder dros y ffôn.

Dylech nodi'r rheswm/rhesymau pam eich bod o'r farn bod y penderfyniad yn anghywir, gan ddarparu tystiolaeth lle y bo'n briodol. Mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Brifysgol o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad. Os daw eich her i law yn hwyrach na 28 diwrnod ar ôl y penderfyniad, mae'n debygol yr ystyrir ei bod yn hwyr.
- c) Os na all yr aelod o staff sy'n ymdrin â'ch her newid y penderfyniad na chynnig canlyniad dymunol i chi, bydd yn rhoi gwybod i chi, ni waeth ar ba ffurf, o fewn tri diwrnod gwaith i gael eich her, am y camau y mae'n bwriadu eu cymryd, pryd y dylech ddisgwyl cael ymateb ac ar ba ffurf.
- d) O fewn deg diwrnod gwaith ar ôl i'ch her ddod i law, byddwch yn cael Neges canlyniad (drwy e-bost neu lythyr) a fydd yn cynnwys ymateb llawn i'ch her neu bryder yn ogystal â rhif cyfeirnod. Nes i chi dderbyn y rhif cyfeirnod hwnnw, ni allwch uwchgyfeirio eich her i'r cam apelio ffurfiol.

- e) Os na chaiff y neges canlyniad ei hanfon o fewn y terfyn amser o ddeg diwrnod, ac os na fyddwch wedi cael eglurhad am yr oedi, dylech gysylltu â'r [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#) i drafod uwchgyfeirio'r her i'r cam apelio ffurfiol.

Cam 2 Cyflwyno apêl ffurfiol

- a) Unwaith y byddwch wedi cael y Neges Canlyniad, os na fyddwch o'r farn bod y penderfyniad wedi'i adolygu yn unol â pholisïau, gweithdrefnau neu reoliadau perthnasol y Brifysgol, neu os nad ydych wedi cael neges canlyniad o fewn y terfyn amser (neu'r terfyn amser estynedig), gallwch gychwyn Cam Apelio'r Weithdrefn Apeliadau Gweinyddol. I wneud hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:
- Ysgrifennu at y [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#) neu [gwblhau'r ffurflen ar-lein](#) o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y Llythyr Canlyniad
 - Egluro pam nad yw'r canlyniad i'ch her wedi datrys y mater.
 - Nodi un neu fwy o'r rhesymau canlynol dros gredu y dylai'r Brifysgol adolygu ei phenderfyniad:
 - ni chafodd tystiolaeth berthnasol ei hystyried; neu
 - cafodd tystiolaeth amherthnasol ei hystyried; neu
 - ni chafodd unrhyw reoliadau, polisïau neu weithdrefnau perthnasol gan y Brifysgol eu cymhwyso'n gywir; neu
 - ni chawsoch eglurhad llawn a chlir o'r rhesymau dros wneud y penderfyniad; neu
 - roedd tuedd, neu duedd debygol, wrth wneud y penderfyniad; neu
 - cafodd y penderfyniad ei wneud gan unigolyn neu gorff nad oedd â'r cyfrifoldeb neu'r awdurdod cywir; neu
 - nid oedd y weithdrefn a ddilynwyd yn deg nac yn ddigonol; neu
 - nid oedd y penderfyniad yn un a oedd yn rhesymol i'r Brifysgol ei wneud, o dan yr holl amgylchiadau.
 - Cyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd na chafodd ei chyflwyno eisoes i ategu eich apêl.
 - Nodwch y rhif cyfeirnod a roddir yn y Neges Canlyniad neu dangoswch fod y terfyn amser (neu'r terfyn amser estynedig) i ymateb wedi mynd heibio.

Bydd methu â bodloni'r gofynion hyn yn golygu na chaiff yr apêl ei derbyn.

- b) Bydd y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr yn cydnabod derbyn eich apêl o fewn tri diwrnod gwaith. Bydd yn dweud wrthych a yw'r apêl yn bodloni'r gofynion ym mharagraff (a) uchod ac a gafodd ei derbyn ai peidio a'r rhesymau dros ei gwrthod os yw hynny'n berthnasol. Cewch gyfle arall i ailanfon eich cais am adolygiad o fewn 28 diwrnod i

dderbyn y llythyr penderfyniad neu o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn cydnabyddiaeth o'ch cais gan y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr, p'un bynnag fo'r cyfnod hiraf.

- c) Os caiff eich apêl ei derbyn, cewch wybod at ba Uwch Awdurdod y cyfeiriwyd y mater a phryd y gallwch ddisgwyl ymateb llawn. Fel arfer, ni ddylai hyn fod yn fwy na pymtheg diwrnod gwaith o'r dyddiad cydnabod; fodd bynnag, cewch wybod os bydd angen estyniad a'r rhesymau dros hynny.
- d) Bydd yr Uwch Awdurdod yn ymchwilio i'r apêl a wnaed gennych. Bydd yn ystyried eich rhesymau dros apelio ac unrhyw dystiolaeth a gyflwynir gennych i ategu eich cais, yn adolygu eich cofnod myfyriwr ac yn cyfeirio at bolisiâu, gweithdrefnau a rheoliadau'r Brifysgol fel sy'n briodol.
- e) Unwaith yr ymchwiliwyd i'ch cwyn yn llawn, anfonir *Llythyr Penderfyniad* atoch. Bydd y *Llythyr Penderfyniad* yn amlinellu materion y gŵyn, llinell amser o'r digwyddiadau, manylion am y wybodaeth neu'r dystiolaeth a ystyriwyd a chanlyniad y gŵyn. Bydd tystiolaeth nad oedd ar gael i chi yn flaenorol ac sydd wedi cael ei hystyried gan yr Uwch Awdurdod yn cael ei darparu i chi, cyhyd â na fyddai hyn yn torri'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- f) Os na dderbynnir eich apêl, cewch eich hysbysu am y rhesymau dros ei gwrthod.
- g) Os caiff eich apêl ei chadarnhau, neu'i chadarnhau yn rhannol, cewch eich hysbysu ynghylch y camau a gymerir i unioni'r mater a'r hyn y bydd y Brifysgol yn ei wneud i atal penderfyniad anghywir yn y dyfodol.
- h) Os caiff apêl ei chadarnhau neu ei chadarnhau yn rhannol, efallai y bydd yr Uwch Awdurdod hefyd yn gwneud argymhellion o ran gweithdrefnau neu bolisiâu sicrhau ansawdd. Byddwn yn rhannu'r argymhellion hyn â chi er gwybodaeth, ac yn eu rhannu ag unrhyw feysydd perthnasol yn y Brifysgol a'r Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith.

Cam 3 Gwneud cais am adolygiad

- a) Unwaith y byddwch wedi derbyn y Llythyr Penderfyniad, os na fyddwch o'r farn fod y penderfyniad wedi'i adolygu yn unol â pholisiâu, gweithdrefnau a rheoliadau perthnasol y Brifysgol, gallwch gychwyn ar Gam Adolygu'r Weithdrefn Apeliadau Gweinyddol. I wneud hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:
 - Ysgrifennu at y [Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr](#) neu gwblhau'r [ffurflen ar-lein](#) o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y Llythyr Penderfyniad.
 - Egluro pam nad yw canlyniad eich apêl wedi datrys y mater.
 - Nodi un neu fwy o'r rhesymau canlynol dros gredu y dylai'r Brifysgol adolygu ei phenderfyniad:
 - ni chafodd tystiolaeth berthnasol ei hystyried; neu
 - cafodd tystiolaeth amherthnasol ei hystyried; neu

- ni chafodd unrhyw reoliadau, polisïau neu weithdrefnau perthnasol gan y Brifysgol eu cymhwyso'n gywir; neu
- ni chawsoch eglurhad llawn a chlir o'r rhesymau dros wneud y penderfyniad; neu
- roedd tuedd, neu duedd debygol, wrth wneud y penderfyniad; neu
- cafodd y penderfyniad ei wneud gan unigolyn neu gorff nad oedd â'r cyfrifoldeb neu'r awdurdod cywir; neu
- nid oedd y weithdrefn a ddilynwyd yn deg nac yn ddigonol; neu
- nid oedd y penderfyniad a wnaed yn deg nac yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau.
- Cyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd na chafodd ei chyflwyno eisoes i ategu eich apêl. Os caiff dystiolaeth newydd neu elfen newydd i'r gŵyn ei chyflwyno yn ystod y cam Adolygu, er mwyn bod yn gymwys i'w hystyried ymhellach dylech roi rheswm dilys i esbonio pam nad oedd modd gwneud hyn yn gynharach yn y broses.

Bydd methu â bodloni'r gofynion hyn yn golygu na chaiff y cais am adolygiad ei dderbyn.

- b) Bydd y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr yn cydnabod y cais am adolygiad o fewn tri diwrnod gwaith iddo ddod i law. O fewn 10 diwrnod gwaith i'r gydnabyddiaeth, bydd Rheolwr Gwaith Achos yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu p'un a yw'r cais am adolygiad wedi cael ei dderbyn ai peidio. Os na chaiff ei dderbyn, rhoddir gwybod i chi beth oedd y rhesymau dros wneud y penderfyniad hwnnw. Cewch gyfle arall i ailanfon eich cais am adolygiad o fewn 28 diwrnod i dderbyn y llythyr penderfyniad neu o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn cydnabyddiaeth o'ch cais gan y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr, p'un bynnag fo'r cyfnod hiraf.
- c) Pan fydd cais am adolygiad yn bodloni'r gofynion sydd ym mharagraff a) uchod, bydd Rheolwr Gwaith Achos Myfyrwyr yn cynnal adolygiad ar ran Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor. Ni fydd yr adolygiad hwn yn ailystyried eich apêl. Bydd y Rheolwr Gwaith Achos yn ystyried yr holl faterion a godwyd mewn perthynas â'ch adolygiad ac yn penderfynu a ddilynwyd y broses apelio yn gywir.
- d) O fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad y llythyr cymhwysedd, bydd Rheolwr Gwaith Achos yn cwblhau adroddiad ar ran Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor sy'n cynnwys y canlynol:
- Crynodeb o'ch apêl a'ch rhesymau dros adolygu
 - Cefndir eich apêl
 - Argymhelliad o ran a ddylid diddymu penderfyniad yr Uwch Awdurdod, ei ddiddymu'n rhannol neu ei gadarnhau.
 - Eglurhad o'r rhesymau dros y penderfyniad
 - Argymhellion ar gyfer datrys lle bo hynny'n briodol

Unwaith y bydd Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor wedi cymeradwyo'r adroddiad, caiff copi ohono ei anfon atoch chi a'r Uwch Awdurdod.

- e) Os caiff penderfyniad yr Uwch Awdurdod ei gadarnhau yn dilyn yr adolygiad, anfonir llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atoch ynghyd ag adroddiad Cynrychiolydd yr Is-
- f) Bydd Y Brifysgol Agored yn gwneud pob ymdrech resymol i fodloni'r terfynau amser fel y'u nodir yn y weithdrefn hon; fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen amser ychwanegol ar gyfer achosion cymhleth er mwyn sicrhau bod yr hyn a gyflwynir yn cael ei adolygu'n drylwyr. Os bydd angen eithriad i'r terfyn amser safonol, rhoddir gwybod i chi yn ysgrifenedig am hyn a byddwch yn cael eich hysbysu'n rheolaidd ynglŷn â phryd y gallwch ddisgwyl ymateb ynghylch y canlyniad.

Cwblhau Gweithdrefnau

Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor yw awdurdod terfynol y Brifysgol o ran apeliadau gweinyddol gan fyfyrwyr. Pan fyddwch wedi cwblhau Gweithdrefn Apeliadau Gweinyddol y Brifysgol, os byddwch yn dal yn anfodlon ar y penderfyniad hwn, gallwch gyfeirio eich apêl at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch er mwyn gwneud cais am adolygiad annibynnol o'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch apêl. Mae manylion cyswllt [Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol](#) ar gyfer Addysg Uwch i'w gweld ar ei gwefan. Caiff y gweithdrefnau ar gyfer atgyfeirio eich achos at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol eu darparu yn y llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Adran 4: Gweithdrefnau apeliadau academaidd i fyfyrwyr

A. Cyflwyniad

Diffiniad o apêl academaidd:

Diffiniad y Brifysgol o apêl academaidd yw cais am adolygiad o benderfyniad a wnaed gan gorff academaidd sydd â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynglŷn â derbyn, asesu, cynnydd myfyrwyr a dyfarniadau.

Cyfeirir at y cyrff academaidd sydd â'r cyfrifoldeb am wneud y penderfyniadau hynny fel Awdurdodau Academaidd Dirprwyedig yn y weithdrefn hon ac maent wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1.

Ni allwch apelio yn erbyn penderfyniad academaidd ddim ond am eich bod yn anghytuno â barn academaidd y Brifysgol. Dim ond os oes rhesymau penodol sy'n ymwneud â thegwch neu ddigonolrwydd y gweithdrefnau a ddilynwyd, gan gynnwys ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, cymhwyso'r rheolau yn gywir, y ffordd y cafodd penderfyniad ei gyfleu, tuedd a ph'un a oedd y penderfyniad yn un rhesymol i'r Brifysgol ei wneud dan yr holl amgylchiadau, y gallwch apelio yn erbyn penderfyniad academaidd.

B. Y Weithdrefn Apeliadau Academaidd Gyffredinol

Mae'r adran hon o'r Weithdrefn Apeliadau Academaidd yn berthnasol i benderfyniadau academaidd sy'n ymwneud â'r canlynol:

- gofynion mynediad (ac eithrio mynediad at raglenni nyrsio neu waith cymdeithasol yn y gweithle) a chofrestru;
- addasiadau rhesymol er mwyn addysgu ac asesu myfyrwyr ag anableddau;
- cymhwyso rheolau dilyniant a threfn astudio;
- camymddwyn academaidd (llên-ladrad);
- dewis gohirio arholiad neu asesiad diwedd modiwl;
- ymestyn terfynau amser ar gyfer asesu neu arholi, gan gynnwys cyflwyno amgylchiadau arbennig yn hwyr;
- dyfarnu credyd aegrotat;
- dyfarnu cymhwyster mewn amgylchiadau eithriadol;
- cofrestru ar gyfer gradd ymchwil neu radd ymchwil benodol;
- terfynu cofrestriad ar gyfer gradd ymchwil;
- gwrthod caniatâd i gyflwyno thesis i'w arholi;
- unrhyw benderfyniad academaidd arall nas cyfeirir ato yn adrannau C i F isod.

Cwmpesir penderfyniadau am farciau aseiniadau, canlyniadau modiwlau, canlyniad arholiad ar gyfer gradd ymchwil, mynediad at raglenni nyrsio a gwaith cymdeithasol yn y gweithle neu addasrwydd i ymarfer ym maes nyrsio neu waith cymdeithasol yn adrannau C i F isod.

Camau'r Weithdrefn Apeliadau Academaidd Gyffredinol

Cam 1 Herio'r penderfyniad

Os oes gennych reswm dros gredu bod unrhyw benderfyniad academaidd sy'n ymwneud â'ch profiad o ran derbyn, asesu, dilyniant neu ddyfarnu yn anghywir, dylech roi gwybod i'r Brifysgol cyn gynted â phosibl. Caiff y manylion ynglŷn â phwy i gysylltu â hwy eu rhoi i chi pan gewch wybod am y penderfyniad.

Ni allwch herio penderfyniad academaidd ddim ond am nad ydych yn cytuno ag ef; mae'n rhaid i chi wneud achos, gyda thystiolaeth i'w ategu, yn nodi pam na chafodd y penderfyniad ei wneud yn unol â pholisïau, gweithdrefnau neu reoliadau perthnasol y Brifysgol.

1. Er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich rhoi mewn cysylltiad â'r adran gywir yn y Brifysgol, gallwch gyflwyno ffurflen ar-lein Trwy'r Ganolfan Gymorth ar Gartref Myfyrwyr neu mae rhifau ffôn hefyd ar gael os yw'n well gennych nodi eich pryder dros y ffôn. Dylech gysylltu â'r unigolyn neu'r adran o'r Brifysgol a wnaeth y penderfyniad gan nodi'r rheswm/rhesymau pam eich bod o'r farn bod y penderfyniad yn anghywir, gan ddarparu tystiolaeth lle y bo'n briodol. Mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Brifysgol o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad. Os daw eich her i law yn hwyrach na 28 diwrnod ar ôl y penderfyniad, caiff ei hystyried yn hwyr oni fydd amgylchiadau eithriadol dros ymestyn y terfyn amser.
2. Os na all yr aelod o staff a wnaeth dderbyn eich her gynnig canlyniad i chi o fewn tri diwrnod gwaith i'ch her ddod i law, bydd yn eich cyngori ynghylch y camau y mae'n bwriadu eu cymryd, pryd y dylech ddisgwyl cael ymateb a beth mae hyn yn ei olygu.
3. O fewn deg diwrnod gwaith i'ch her ddod i law, byddwch yn derbyn Llythyr Canlyniad a fydd yn cynnwys ymateb llawn i'ch her neu bryder yn ogystal â rhif cyfeirnod. Nes i chi dderbyn y rhif cyfeirnod hwnnw, ni allwch uwchgyfeirio eich her i'r cam apelio ffurfiol.
4. Os na chaiff y Llythyr Canlyniad ei anfon o fewn y terfyn amser o ddeg diwrnod gwaith, ac os na fyddwch wedi cael eglurhad am yr oedi, dylech gysylltu â'r Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr i drafod uwchgyfeirio'r her i'r cam apelio ffurfiol.

Cam 2 Cyflwyno apêl academaidd ffurfiol

Os na fyddwch o'r farn bod y penderfyniad yn y Llythyr Canlyniad a gawsoch wedi'i adolygu yn unol â pholisïau, gweithdrefnau neu reoliadau perthnasol y Brifysgol, neu os nad ydych wedi derbyn llythyr canlyniad o fewn y terfyn amser (neu'r terfyn amser estynedig) gallwch gychwyn Cam Apelio'r Weithdrefn Apeliadau Academaidd.

- 1) I wneud hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:
 - a) Ysgrifennu at y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr neu [gwblhau'r ffurflen ar-lein](#) o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y Llythyr Canlyniad
 - b) Egluro pam nad yw'r canlyniad i'ch her wedi datrys y mater.

- c) Nodi un neu fwy o'r rhesymau canlynol dros gredu y dylai'r Brifysgol adolygu ei phenderfyniad:
- ni chafodd tystiolaeth berthnasol ei hystyried;
 - cafodd tystiolaeth amherthnasol ei hystyried;
 - ni chafodd unrhyw reoliadau, polisïau neu weithdrefnau perthnasol gan y Brifysgol eu cymhwyso'n gywir;
 - ni chawsoch eglurhad clir o'r rhesymau dros wneud y penderfyniad;
 - roedd tuedd, neu duedd debygol, wrth wneud y penderfyniad;
 - cafodd y penderfyniad ei wneud gan unigolyn neu gorff nad oedd â'r cyfrifoldeb neu'r awdurdod cywir;
 - nid oedd y weithdrefn a ddilynwyd yn deg nac yn ddigonol;
 - nid oedd y penderfyniad yn un a oedd yn rhesymol i'r Brifysgol ei wneud, o dan yr holl amgylchiadau.
- d) Cyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd neu ychwanegol na chafodd ei chyflwyno eisoes i ategu eich apêl.
- e) Nodi'r rhif cyfeirnod a roddir yn y Llythyr Canlyniad neu ddangos bod y terfyn amser (neu'r terfyn amser estynedig) i ymateb wedi mynd heibio.

Bydd methu â bodloni'r gofynion hyn yn golygu na chaiff eich apêl ei derbyn.

- 2) Bydd y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr yn cydnabod eich apêl o fewn tri diwrnod gwaith. Bydd yn dweud wrthych a yw'r apêl yn bodloni'r gofynion ym mharagraff (a) uchod ac a gafodd ei derbyn ai peidio a'r rhesymau dros ei gwrthod os yw hynny'n berthnasol. Os na chafodd eich apêl ei derbyn, cewch gyfle arall i ailanfon eich apêl o fewn 28 diwrnod i dderbyn y llythyr penderfyniad neu o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn cydnabyddiaeth o'ch cais gan y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr, p'un bynnag fo'r cyfnod hiraf.
- 3) Os caiff eich apêl ei derbyn, cewch wybod at ba Awdurdod Academaidd Dirprwyedig y cyfeiriwyd y mater a phryd y gallwch ddisgwyl ymateb llawn. Fel arfer, ni ddylai hyn fod yn fwy na pymtheg diwrnod gwaith o'r dyddiad cydnabod; fodd bynnag, cewch wybod os bydd angen estyniad a'r rhesymau dros hynny.
- 4) Bydd yr Awdurdod Academaidd Dirprwyedig yn ymchwilio i'ch apêl.
- 5) Unwaith yr ymchwiliwyd i'ch cwyn yn llawn, anfonir *Llythyr Penderfyniad* atoch. Bydd y *Llythyr Penderfyniad* yn amlinellu materion y gŵyn, llinell amser o'r digwyddiadau, manylion am y wybodaeth neu'r dystiolaeth a ystyriwyd a chanlyniad y gŵyn. Bydd tystiolaeth nad oedd ar gael i chi yn flaenorol ac sydd wedi cael ei hystyried gan yr Uwch Awdurdod yn cael ei darparu i chi, cyhyd â na fyddai hyn yn torri'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- 6) Unwaith yr ymchwiliwyd i'ch apêl yn llawn, anfonir Llythyr Penderfyniad atoch. Bydd y Llythyr Penderfyniad yn amlinellu'r rhesymau dros eich apêl, llinell amser o'r

digwyddiadau (lle y bo'n berthnasol), manylion y wybodaeth neu'r dystiolaeth a ystyriwyd, a chanlyniad yr apêl.

- a) Os na dderbynnir eich apêl, cewch eich hysbysu am y rhesymau dros ei gwrthod.
 - b) Os caiff eich apêl ei chadarnhau, neu'i chadarnhau yn rhannol, cewch eich hysbysu ynghylch y camau a gymerir i roi'r penderfyniad ar waith a, lle y bo'n briodol, yr hyn y bydd y Brifysgol yn ei wneud i atal penderfyniad anghywir yn y dyfodol.
- 7) Os caiff apêl ei chadarnhau neu ei chadarnhau yn rhannol, efallai y bydd yr Awdurdod Academaidd Dirprwyedig hefyd yn gwneud argymhellion o ran gweithdrefnau neu bolisiâu sicrhau ansawdd. Byddwn yn rhannu'r argymhellion hyn â chi er gwybodaeth, ac yn eu rhannu ag unrhyw feysydd perthnasol yn y Brifysgol a'r Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith.

Cam 3 Gwneud cais am Adolygiad ffurfiol

Yr Awdurdodau Academaidd Dirprwyedig yw awdurdod terfynol y Brifysgol o ran apeliadau academaidd. Ni allwch wneud cais i adolygu penderfyniad Awdurdod Academaidd Dirprwyedig ddim ond am eich bod yn anghytuno â'i benderfyniad. Er mwyn gwneud cais am adolygiad gan Banel Adolygu Apeliadau Academaidd y Senedd, mae'n rhaid i chi gyflwyno achos, gyda thystiolaeth i'w ategu, fod y Brifysgol wedi gwneud camgymeriad gweithdrefnol wrth wneud y penderfyniad hwnnw dan un neu fwy o'r rhesymau a nodir ym mharagraff 2.2 o adran G isod. Os caiff tystiolaeth newydd ei chyflwyno yn ystod y cam Adolygu, dylech esbonio pam nad oedd modd ei chyflwyno'n gynharach yn y broses er mwyn i'r Awdurdod Academaidd Dirprwyedig ei hystyried.

Gweler adran G isod am ragor o fanylion ar sut y gallwch wneud cais am adolygiad.

C. Apeliadau yn erbyn marc Aseiniad wedi'i Farcio gan Diwtor (TMA)

Cyflwyniad

Rydym yn gobeithio y byddwch yn cytuno â'r sgorau a roddir ar gyfer eich TMAs, ac yn deall y rhesymau dros eu rhoi. Mae croeso i chi ofyn am eglurhad gan eich tiwtor os nad ydych yn deall hyn neu herio'r sgôr pan na fyddwch o'r farn ei bod yn gywir.

Prin iawn yw'r adegau pan fydd atebion "cywir" neu "anghywir" i TMAs, ac er mwyn eu marcio'n deg mae'n rhaid i'ch tiwtor arfer ei farn broffesiynol gan ystyried y canllawiau marcio er mwyn penderfynu pa mor dda rydych wedi ateb y cwestiynau a osodwyd.

Mae'r Brifysgol yn monitro'r gwaith o farcio TMAs yn ofalus, gan ddefnyddio dadansoddiad ystadegol i sicrhau tegwch rhwng y gwahanol diwtoriaid sy'n dysgu modiwl, ac yn monitro samplau o waith mewn modd ansoddol gan ystyried y gwaith marcio a'r adborth. Fodd bynnag, os byddwch yn teimlo bod eich tiwtor wedi gwneud camgymeriad wrth farcio eich TMA, neu wedi rhoi sgôr i chi nad yw'n adlewyrchiad rhesymol o safon y gwaith a gyflwynwyd gennych, gallwch gyflwyno her neu apêl ar gyfer TMA (heblaw am TMAs diwedd modiwl (emTMAs)) drwy ddilyn y weithdrefn a nodir isod.

Ceir tri cham i'r weithdrefn:

Cam 1

Her anffurfiol, lle rydych yn gofyn i'ch tiwtor adolygu rhyw agwedd ar y gwaith marcio;

Cam 2

Apêl ffurfiol, lle rydych yn gofyn am farn arall ar yr holl waith marcio. Mae'n rhaid i chi godi eich pryder fel her bob amser cyn y gallwch fynd ymlaen i wneud apêl.

Cam 3

Adolygiad ffurfiol gan Banel Adolygu Apeliadau Academaidd y Senedd.

Beth bynnag fo'r canlyniad, ni fyddwch dan anfantais am i chi gyflwyno her neu apêl. Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol y gallai canlyniad her neu apêl arwain at ddyfarnu sgôr is ar gyfer yr aseiniad os yw hynny'n adlewyrchiad rhesymol o safon y gwaith a gyflwynwyd gennych.

Parhau â'ch Astudiaethau

Er eich budd chi, dylech gyflwyno heriau ac apeliadau yn brydlon a byddwn ni, yn ein tro, yn ymdrechu i ddelio â hwy mewn modd effeithlon er mwyn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar eich astudiaethau. Tra byddwch yn aros i ni ymateb i her neu apêl, dylech barhau â'ch astudiaethau ac unrhyw aseiniad; nid yw aros am ymateb i her neu apêl yn rheswm derbyniol dros gyflwyno aseiniad arall yn hwyr. Os ydych o'r farn fod camgymeriad wrth farcio wedi cael effaith ar asesiad dilynol, gallwch godi hyn drwy'r weithdrefn Amgylchiadau Arbennig fel y gellid ei ystyried pan gaiff canlyniad y modiwl ei benderfynu.

Rhesymau dros Herio neu Apelio

Gallwch herio neu apelio yn erbyn y sgôr a roddir ar gyfer unrhyw TMA am y naill reswm canlynol neu'r llall, neu'r ddau, a dylech nodi hyn wrth gyflwyno'r her:

- **Gweinyddol:** Os byddwch o'r farn fod y marciwr wedi peidio â marcio rhan o'ch gwaith neu wedi cyfrif y marciau a ddyfernir yn anghywir wrth gyfrifo'r sgôr derfynol.
- **Academaidd:** Os byddwch o'r farn nad yw'r sgôr a ddyfernir yn cyfleu teilyngdod academaidd y gwaith a gyflwynwyd gennych yn rhesymol.

Cyfyngir her neu apêl sy'n ymwneud â marcio TMA i ystyried cywirdeb neu resymoldeb y sgôr a ddyfernir ar gyfer y gwaith a gyflwynwyd gennych wrth ei asesu yn erbyn y cynllun marcio ar gyfer y TMA hwnnw. Ni ellir ystyried canlyniadau y tu hwnt i'r sgôr ar gyfer y TMA dan sylw - er enghraifft, yr effaith ar ganlyniad eich modiwl.

Os ydych o'r farn bod ffactorau eraill y tu hwnt i'ch rheolaeth, megis salwch, wedi cael effaith andwyol ar safon y gwaith a gyflwynwyd gennych, dylech ddefnyddio proses Amgylchiadau Arbennig ac mae'r manylion yn eich Llawlyfr Asesu.

Cam 1: Herio eich sgôr gyda'ch tiwtor

Os ydych o'r farn bod gwall gweinyddol yn y marc a roddwyd ar gyfer TMA, neu nad yw'n adlewyrchiad rhesymol o deilyngdod academaidd y gwaith a gyflwynwyd gennych, dylech

gysylltu â'ch tiwtor yn uniongyrchol yn gyntaf, cyn gynted â phosibl ac o fewn 14 diwrnod i eTMA wedi'i farcio fod ar gael i'w lawrlwytho, neu TMA papur wedi'i farcio gyrraedd drwy'r post. Dylech nodi'r canlynol:

- a) ble y cafodd y gwall gweinyddol ei wneud yn eich barn chi; a/neu
- b) eich rhesymau dros gredu nad yw'r marc hwnnw yn rhesymol.

Bydd eich tiwtor yn ystyried eich her ar sail y rhesymau a nodwyd gennych.

Bydd unrhyw achos o ailystyried eich TMA gan eich tiwtor yn seiliedig ar y testun a chynnwys arall y TMA fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol yn unig. Ni allwch ddefnyddio her i gyflwyno deunyddiau asesu pellach nac ategu unrhyw wybodaeth, eglurhad na dadansoddiad a gafodd ei gynnwys yn eich TMA gwreiddiol.

Os caiff gwall gweinyddol ei ganfod, (er enghraifft, gwall cyfrifo neu farciau ar goll), caiff y gwall ei gywiro yn llawn, caiff sgôr ddiwygiedig ei chofnodi a rhoddir adborth newydd os oes angen. Os bydd eich tiwtor ar ôl ystyried ymhellach yn cytuno nad oedd y gwaith marcio gwreiddiol yn adlewyrchiad rhesymol o safon eich gwaith, caiff sgôr ddiwygiedig ei chofnodi a rhoddir adborth newydd os oes angen. Os bydd eich tiwtor yn penderfynu y dylid cadw'r sgôr wreiddiol, bydd yn egluro'r penderfyniad hwn i chi.

Dylech dderbyn copi ysgrifenedig o benderfyniad eich tiwtor o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y gwnaethoch gyflwyno eich her.

Os bydd eich tiwtor wedi newid ers i'r marc gael ei ddyfarnu, neu os nad yw ar gael (er enghraifft drwy salwch), neu os am ryw reswm na wnaeth farcio'r TMA dan sylw, yna dylech gysylltu â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr a fydd yn gallu trefnu bod marciwr arall yn delio â'ch her. Nid yw nifer fach o fodiwlau yn dyrannu tiwtoriaid personol. Os ydych yn astudio'r math hwn o fodwl ac rydych am herio sgôr TMA, cysylltwch â'r Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr o fewn 28 diwrnod i gael y sgôr TMA, gan nodi nad yw eich modiwl yn darparu tiwtor personol. Y terfyn amser er mwyn delio â'ch her fydd 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad y caiff ei phasio i'r marciwr arall. Ein nod yw datrys y rhan fwyaf o bryderon yn anffurfiol ar y cam hwn. Fodd bynnag, ni ddylech gymryd yn ganiataol y bydd her (neu apêl ddilynol) yn arwain at gynyddu eich sgôr wreiddiol.

Os hoffech herio canlyniad TMA diwedd modiwl (emTMA) ni ddylech gysylltu â'ch tiwtor. I ddechrau, bydd angen i chi gwblhau ffurflen wirio canlyniad modiwl i herio eich canlyniad (gweler Adran 4.9 o'r Llawlyfr Asesu i gael rhagor o fanylion).

Cam 2: Apelio at yr Awdurdod Academaidd Dirprwyedig

- 1) Os ydych wedi herio'ch sgôr ac, yn dilyn derbyn penderfyniad y marciwr am eich her, nad ydych yn fodlon bod gwall gweinyddol wedi'i gywiro neu nad yw'r sgôr a roddir yn adlewyrchu teilyngdod academaidd y gwaith a gyflwynwyd gennych yn rhesymol, yna gallwch apelio yn erbyn eich sgôr TMA at yr Awdurdod Academaidd Dirprwyedig, sef aelod o staff academaidd sydd â chyfrifoldeb goruchwyllo dros y modiwl rydych yn ei astudio.

2) I gyflwyno apêl Cam 2 dylech ysgrifennu at y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr neu [gwblhau'r ffurflen ar-lein](#) o fewn 28 diwrnod i ddyddiad derbyn penderfyniad y marciwr am eich her, gan gynnwys:

- a) Cod y modiwl a rhif y TMA y mae eich apêl yn ymwneud ag ef;
- b) Copïau o'ch gohebiaeth â'r gwiriwr yn ystod y cam herio, gan gynnwys eich rhesymau dros herio a phenderfyniad y marciwr yn dilyn eich her; ac
- c) Eglurhad o'ch rhesymau dros gredu na chafodd eich her ei hystyried yn llawn neu mewn modd priodol.
- d) Copïau o'ch gohebiaeth â'r gwiriwr yn ystod y cam herio, gan gynnwys eich rhesymau dros herio a phenderfyniad y marciwr yn dilyn eich her; ac

Noder na allwch gyflwyno rhesymau newydd dros apelio yn ystod y cam hwn; mae'n rhaid bod y marciwr gwreiddiol wedi cael cyfle i ymateb i'r holl bryderon sydd gennych.

- 3) Bydd y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr yn cydnabod eich apêl o fewn tri diwrnod gwaith. Bydd yn dweud wrthych a yw'r apêl yn bodloni'r gofynion ym mharagraff (2) uchod ac a gafodd ei derbyn ai peidio a'r rhesymau dros ei gwrthod os yw hynny'n berthnasol. Os na chafodd eich apêl ei derbyn, cewch gyfle arall i ailanfon eich apêl o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn cydnabyddiaeth o'ch cais gan y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr.
- 4) Os caiff eich apêl ei derbyn, cewch wybod at ba Awdurdod Academaidd Dirprwyedig y cyfeiriwyd y mater a phryd y gallwch ddisgwyl ymateb llawn. Fel arfer, ni ddylai hyn fod yn fwy na deg diwrnod gwaith o'r dyddiad cydnabod; fodd bynnag, cewch wybod os bydd angen estyniad a'r rhesymau dros hynny.

Pan fydd yr Awdurdod Academaidd Dirprwyedig yn derbyn eich apêl, bydd yn dilyn y camau canlynol:

Os bydd eich apêl am resymau gweinyddol, bydd yr Awdurdod Academaidd Dirprwyedig neu ei enwebai yn archwilio eich aseiniad sydd wedi'i farcio er mwyn sicrhau bod y marciwr cyntaf wedi ystyried yr holl waith a gyflwynwyd. Os nad oes rhan ohono wedi'i farcio, rhoddir marc am y rhan honno, ond ni chaiff unrhyw waith marcio arall ei wneud. Bydd yr Awdurdod Academaidd Dirprwyedig yn trefnu bod y sgôr newydd yn cael ei chofnodi ac yn rhoi gwybod i chi am y canlyniad.

Os bydd eich apêl am resymau academaidd, bydd yr Awdurdod Academaidd Dirprwyedig yn sicrhau ail farn hyddysg am y gwaith a gyflwynwyd gennych. Fel arfer, y dull a ddefnyddir yw adolygiad o'r gwaith marcio gwreiddiol, oni fydd yr Awdurdod Academaidd Dirprwyedig o'r farn y byddai dull arall, megis ail farcio dall, yn rhoi canlyniad tecach. Os bydd yr ail farn yn cadarnhau bod eich sgôr wreiddiol yn dod o fewn amrediad rhesymol, ni fydd y sgôr honno yn newid. Os bydd yr Awdurdod Academaidd Dirprwyedig a'r ail farn yn cytuno nad oedd eich sgôr wreiddiol o fewn amrediad rhesymol, byddant yn cytuno ar sgôr ddiwygiedig i'w chofnodi gyda'i gilydd.

Os bydd eich apêl am resymau academaidd a gweinyddol, caiff y ddwy broses uchod eu dilyn. Caiff materion gweinyddol eu hystyried a'u datrys yn gyntaf cyn unrhyw ailystyriaeth academaidd. Caiff unrhyw wallau gweinyddol eu cywiro'n llawn, ond ni chaiff newid academaidd ei wneud oni fydd y sgôr wreiddiol o fewn amrediad rhesymol.

Pan fydd eich apêl wedi'i phenderfynu, bydd yr Awdurdod Academaidd Dirprwyedig yn ysgrifennu atoch gan nodi manylion y canlyniadau.

Cam 3 Gwneud cais am Adolygiad ffurfiol

Yr Awdurdodau Academaidd Dirprwyedig yw awdurdod terfynol y Brifysgol o ran apeliadau academaidd. Ni allwch wneud cais i adolygu penderfyniad Awdurdod Academaidd Dirprwyedig ddim ond am eich bod yn anghytuno â'i benderfyniad. Er mwyn gwneud cais am adolygiad gan Banel Adolygu Apeliadau Academaidd y Senedd, mae'n rhaid i chi gyflwyno achos, gyda thystiolaeth i'w ategu, fod y Brifysgol wedi gwneud camgymeriad gweithdrefnol wrth wneud y penderfyniad hwnnw dan un neu fwy o'r rhesymau a nodir ym mharagraff 2.2 o adran G isod. Os caiff tystiolaeth newydd ei chyflwyno yn ystod y cam Adolygu, dylech esbonio pam nad oedd modd ei chyflwyno'n gynharach yn y broses er mwyn i'r Awdurdod Academaidd Dirprwyedig ei hystyried.

Gweler adran G isod am ragor o fanylion ar sut y gallwch wneud cais am adolygiad.

D. Apelio yn erbyn canlyniad modiwl

1. Caiff canlyniad modiwl ei gymeradwyo ar ran y Senedd gan y Panel Cymeradwyo Canlyniadau Modiwlau a Dosbarthu Cymwysterau (MRAQCP) ar sail argymhelliad gan Banel Canlyniadau Modiwlau (MRP).
2. Ni ellir apelio yn erbyn argymhelliad Panel Canlyniadau Modiwlau ac eithrio drwy atgyfeiriad at Banel Adolygu Apeliadau Academaidd y Senedd (SAARP) fel yr amlinellir yn Adran G isod.

Noder: Ni allwch apelio yn erbyn canlyniad modiwl ddim ond am eich bod yn anghytuno â'r farn academaidd, am eich bod yn siomedig â'r canlyniad neu oherwydd y goblygiadau posibl o gael canlyniad is na'r disgwyl. Mae'n rhaid i chi gyflwyno achos, gyda thystiolaeth i'w ategu, fod y Brifysgol wedi gwneud camgymeriad gweithdrefnol wrth ddod i'r canlyniad hwnnw dan un neu fwy o'r rhesymau a nodir ym mharagraff 2.2 o adran G isod.

Os nad ydych yn siŵr a oes gennych reswm dros apelio, gallwch, o dan rai amgylchiadau, ofyn i'r Brifysgol gyflawni Gwiriad Canlyniad Modiwl. Amlinellir y manylion am wneud hyn a'r terfynau amser ar gyfer gwneud cais yn eich Llawlyfr Asesu (Adran 4.9).

E. Apeliadau yn erbyn canlyniad arholiad ar gyfer gradd ymchwil

Caiff canlyniad arholiad ar gyfer gradd ymchwil ei gymeradwyo ar ran y Senedd gan y Pwyllgor Cymeradwyo Canlyniadau Arholiadau ar gyfer Graddau Ymchwil (RDRAC).

Ni ellir apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Cymeradwyo Canlyniadau Arholiadau ar gyfer Graddau Ymchwil ac eithrio drwy atgyfeiriad at Banel Adolygu Apeliadau Academaidd y Senedd (SAARP) fel yr amlinellir yn Adran G isod.

Noder: Ni allwch apelio yn erbyn canlyniad arholiad ddim ond am eich bod yn anghytuno â'r farn academaidd, am eich bod yn siomedig â'r canlyniad neu oherwydd y goblygiadau posibl o gael canlyniad is na'r disgwyl. Mae'n rhaid i chi gyflwyno achos, gyda thystiolaeth i'w ategu, fod y Brifysgol wedi gwneud camgymeriad gweithdrefnol wrth ddod i'r canlyniad hwnnw yn seiliedig ar un neu fwy o'r rhesymau a nodir ym mharagraff 2.2 o adran G isod.

Os caiff eich thesis ei ailfarcio o ganlyniad i apêl, a bod canlyniad yr ailfarcio hwn yn llai ffafriol na'r arholiad gwreiddiol, bydd canlyniad yr arholiad cyntaf yn dal yn berthnasol yn amodol ar y cywiriadau, y gwelliannau neu'r diwygiadau gwreiddiol.

F. Apeliadau yn erbyn penderfyniad Panel Dethol neu Banel Addasrwydd i Ymarfer

Ni ellir apelio yn erbyn penderfyniad Panel Dethol neu Banel Addasrwydd i Ymarfer ac eithrio drwy gyflwyno apêl i Banel Adolygu Apeliadau Academaidd y Senedd (SAARP) fel y nodir yn Adran G isod.

Noder: Ni allwch apelio yn erbyn penderfyniad Panel Dethol neu Banel Addasrwydd i Ymarfer ddim ond am eich bod yn anghytuno â'r penderfyniad hwnnw. Mae'n rhaid i chi gyflwyno achos, gyda thystiolaeth i'w ategu, fod y Brifysgol wedi gwneud camgymeriad gweithdrefnol o ran un neu fwy o'r rhesymau a nodir ym mharagraff 2.2 o adran G isod. Os caiff tystiolaeth newydd ei chyflwyno yn ystod y cam Adolygu, dylech esbonio pam nad oedd modd ei chyflwyno'n gynharach yn y broses er mwyn i'r Panel Dethol neu'r Panel Addasrwydd i Ymarfer ei hystyried.

G. Gweithdrefn Adolygu Apeliadau Academaidd

1. Gwneud cais am adolygiad gan Banel Adolygu Apeliadau Academaidd y Senedd

1.1. Mae gennych hawl i wneud cais am adolygiad gan Banel Adolygu Apeliadau Academaidd y Senedd (y Panel) ar gyfer:

- penderfyniad Awdurdod Academaidd Dirprwyedig a gafodd ei wneud yn dilyn apêl academaidd ffurfiol o dan adran B neu C o'r weithdrefn hon;
- achos pan fydd Awdurdod Academaidd Dirprwyedig wedi gwrthod ystyried apêl academaidd ffurfiol sy'n dderbyniol dan adran B neu C o'r weithdrefn hon;
- argymhelliad gan Banel Canlyniadau Modiwlau (MRP) a wnaed dan adran D o'r weithdrefn hon;
- penderfyniad y Pwyllgor Cymeradwyo Canlyniadau Arholiadau ar gyfer Graddau Ymchwil o dan adran E o'r weithdrefn hon;
- penderfyniad Panel Dethol neu Banel Addasrwydd i Ymarfer a wnaed dan adran F o'r weithdrefn hon;

ac os oes tystiolaeth i ategu'r honiad fod mwy nag un o'r rhesymau derbyniol dros adolygu a amlinellir ym mharagraff 2.2 isod yn berthnasol i'r penderfyniad hwnnw.

1.2. Ni ellir derbyn cais am adolygiad ddim ond am fod anghytundeb neu anfodlonrwydd â barn academiaidd neu ganfyddiad yr Awdurdod Academiaidd Dirprwyedig wrth apelio, ac eithrio pan na fydd hawl arall i apelio yn bodoli a bod barn wedi'i ffurfio gan un arbenigwr academiaidd heb iddi gael ei dilysu, ei chymedroli na'i chadarnhau gan un o gyrff academiaidd awdurdodedig y Brifysgol.

1.3. Ni allwch wneud cais am unrhyw adolygiad pellach o benderfyniad apêl ar fater y mae'r Panel eisoes wedi'i adolygu. Os byddwch yn dal yn anfodlon na chafodd penderfyniad ei wneud yn unol â rheolau a gweithdrefnau'r Brifysgol, gallwch gyfeirio'r mater at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIA), fel y nodir yn y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

2. Sut i wneud cais am adolygiad

2.1. Unwaith y byddwch wedi derbyn y llythyr penderfyniad sy'n rhoi gwybod i chi am y canlynol:

- penderfyniad Awdurdod Academiaidd Dirprwyedig a gafodd ei wneud yn dilyn apêl academiaidd ffurfiol o dan y weithdrefn hon; neu
- achos pan fydd Awdurdod Academiaidd Dirprwyedig wedi gwrthod ystyried apêl academiaidd sy'n dderbyniol dan y weithdrefn hon; neu
- canlyniad modiwl; neu
- canlyniad arholiad ar gyfer gradd ymchwil; neu
- penderfyniad Panel Dethol neu Banel Addasrwydd i Ymarfer;

ac os na fyddwch o'r farn bod y penderfyniad wedi'i wneud yn unol â pholisïau, gweithdrefnau a rheoliadau perthnasol y Brifysgol, gallwch wneud cais am adolygiad o dan y weithdrefn hon.

2.2. I wneud hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- Ysgrifennu at Ysgrifennydd y Panel o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y llythyr penderfyniad; a
- Egluro pam eich bod o'r farn na chafodd y penderfyniad ei wneud yn unol â pholisïau, gweithdrefnau a rheoliadau perthnasol y Brifysgol; ac
- Nodi un neu fwy o'r rhesymau canlynol dros gredu y dylai'r Brifysgol adolygu ei phenderfyniad:
 - ni chafodd tystiolaeth berthnasol ei hystyried; neu
 - cafodd tystiolaeth amherthnasol ei hystyried; neu
 - ni chafodd unrhyw reoliadau, polisïau neu weithdrefnau perthnasol gan y Brifysgol eu cymhwysu'n gywir; neu

- ni chawsoch eglurhad llawn a chliir o'r rhesymau dros wneud y penderfyniad; neu
- roedd tuedd, neu duedd debygol, wrth wneud y penderfyniad; neu
- cafodd y penderfyniad ei wneud gan unigolyn neu gorff nad oedd â'r cyfrifoldeb neu'r awdurdod cywir; neu
- nid oedd y weithdrefn a ddilynwyd yn deg nac yn ddigonol; neu
- nid oedd y penderfyniad yn un a oedd yn rhesymol i'r Brifysgol ei wneud, o dan yr holl amgylchiadau.
- Cyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd neu ychwanegol na chafodd ei chyflwyno eisoes i ategu eich apêl. Os caiff tystiolaeth newydd ei chyflwyno yn ystod y cam Adolygu, er mwyn bod yn gymwys i'w hystyried ymhellach, dylech roi rheswm dilys i esbonio pam nad oedd modd ei chyflwyno'n gynharach yn y broses.

Bydd methu â bodloni'r gofynion hyn yn golygu na chaiff y cais am adolygiad ei dderbyn.

2.3. Bydd y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr yn cydnabod y cais am adolygiad o fewn tri diwrnod gwaith i'r cais ddod i law. O fewn 10 diwrnod gwaith i'r gydnabyddiaeth, bydd Ysgrifennydd y Panel yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu p'un a yw'r cais am adolygiad wedi cael ei dderbyn ai peidio. Os na chaiff ei dderbyn, rhoddir gwybod i chi beth oedd y rhesymau dros wneud y penderfyniad hwnnw. Cewch gyfle arall i ailanfon eich cais am adolygiad o fewn 28 diwrnod i dderbyn y llythyr penderfyniad neu o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn cydnabyddiaeth o'ch cais gan yr Ysgrifennydd, p'un bynnag fo'r cyfnod hiraf.

2.4. Os na fyddwch yn rhoi unrhyw resymau, neu resymau digonol, dros adolygu, ni chaiff eich cais ei dderbyn ac anfonir Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atoch.

2.5. Os na fydd cais am adolygiad yn bodloni'r gofynion sydd ym mharagraff 2.2 uchod bydd yr Ysgrifennydd yn ffurfio Panel i gynnal adolygiad. Cynhelir yr adolygiad yn unol â'r weithdrefn a amlinellir yn Atodiad 2 i'r Weithdrefn hon.

2.6. Bydd Y Brifysgol Agored yn gwneud pob ymdrech resymol i fodloni'r terfynau amser fel y'u nodir yn y weithdrefn hon; fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen amser ychwanegol ar gyfer achosion cymhleth er mwyn sicrhau bod yr hyn a gyflwynir yn cael ei adolygu'n drylwyr. Os bydd angen eithriad i'r terfyn amser safonol, rhoddir gwybod i chi yn ysgrifenedig am hyn a byddwch yn cael eich hysbysu'n rheolaidd ynglŷn â phryd y gallwch ddisgwyl ymateb ynghylch y canlyniad.

Adran 5: Cwynion sy'n ymwneud â Chymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored

- 1) Nod yr adran hon o'r Weithdrefn Gwyno ac Apelio i Fyfyrwyr yw cydymffurfio â darpariaethau Deddf Addysg 1994: Rhan II, Undebau Myfyrwyr, cymal 22(m) ac (n). Mae'n arbennig at ddefnydd unrhyw fyfyrwr neu grŵp o fyfyrwyr o'r Brifysgol Agored sydd:
 - yn anfodlon ar unrhyw agwedd ar eu hymwneud â Chymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored; neu
 - yn honni eu bod dan anfantais annheg am iddynt arfer eu hawl i beidio â bod yn aelod o Gymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored.
- 2) Lle caiff cwyn ei gwneud yn erbyn Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored, bydd y cyfeiriadau at 'staff' yn Adran 1 y Weithdrefn Gwyno ac Apelio i Fyfyrwyr yn cynnwys staff Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored a myfyrwyr sydd mewn swydd etholedig o fewn Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored. [Noder: Mae'r safonau ymddygiad a ddisgwyllir gan fyfyrwyr sy'n cwyno am staff a swyddogion Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored a staff a swyddogion Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored sy'n destun cwynion neu'n ymateb iddynt yn gymwys].

Atgyfeirio eich cwynion yn erbyn Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored

- 1) Dylai unrhyw fyfyrwr neu grŵp o fyfyrwyr nodi eu cwyn o dan Weithdrefnau Cwynion Cyffredinol Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored yn gyntaf.
- 2) Pan fydd cam olaf Gweithdrefn Cwynion Cyffredinol Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored wedi'i gwblhau, anfonir llythyr Cwblhau Gweithdrefnau Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored atoch sy'n nodi penderfyniad terfynol Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.
- 3) Dim ond pan fydd y gŵyn yn ymwneud ag un o'r materion canlynol y gellir atgyfeirio cwyn yn erbyn Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored i'r Brifysgol i'w hadolygu ar ôl cwblhau Gweithdrefnau Cwynion Cyffredinol Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored:
 - nid yw Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored wedi dilyn ei gweithdrefnau ei hun
 - nid yw Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored wedi gweithredu yn unol â'r polisiau y cytunwyd arnynt
 - mae Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored wedi gweithredu yn erbyn y gyfraith, neu
 - Rydych wedi bod dan anfantais drwy beidio â bod yn aelod o Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored.

ac os bodlonir un neu fwy o'r rhesymau dros atgyfeirio a nodir ym mharagraff 4 isod.

4) Unwaith y byddwch wedi derbyn llythyr Cwblhau Gweithdrefnau Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored, os nad ydych o'r farn fod Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored wedi ymateb yn rhesymol i'ch cwyn, gallwch ddechrau ar y weithdrefn hon. I wneud hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- Ysgrifennu at y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr neu gyflwyno Ffurflen Adolygu o fewn 28 diwrnod i ddyddiad Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored.
- Egluro pam eich bod yn dal i deimlo'n anfodlon â chanlyniad eich cwyn.
- Nodi un neu fwy o'r rhesymau canlynol dros gredu y dylai'r Brifysgol adolygu penderfyniad Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored:
 - ni chafodd tystiolaeth berthnasol ei hystyried; neu
 - cafodd tystiolaeth amherthnasol ei hystyried; neu
 - ni chafodd unrhyw reoliadau, polisïau neu weithdrefnau perthnasol gan Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored eu cymhwysu yn gywir; neu
 - ni chawsoch eglurhad llawn a chlir o'r rhesymau dros wneud y penderfyniad; neu
 - roedd tuedd, neu duedd debygol, wrth wneud y penderfyniad; neu
 - cafodd y penderfyniad ei wneud gan unigolyn neu gorff nad oedd â'r cyfrifoldeb neu'r awdurdod cywir; neu
 - nid oedd y weithdrefn a ddilynwyd yn deg nac yn ddigonol; neu
 - nid oedd y penderfyniad yn un a oedd yn rhesymol i Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored ei wneud o dan yr holl amgylchiadau.
- Cyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd na chafodd ei chyflwyno eisoes i ategu eich cwyn.

Bydd methu â bodloni'r gofynion hyn yn golygu na chaiff y cais am adolygiad ei dderbyn.

5) Bydd y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr yn cydnabod y cais am adolygiad o fewn tri diwrnod gwaith i'r cais ddod i law a byddwch yn cael gwybod a yw'r cais wedi'i dderbyn. Os na chaiff ei dderbyn, rhoddir gwybod i chi beth oedd y rhesymau dros wneud y penderfyniad hwnnw. Cewch gyfle arall i ail-anfon eich cais am adolygiad o fewn 28 diwrnod o dderbyn llythyr Cwblhau Gweithdrefnau Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored, neu o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y llythyr cymhwysedd gan y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr, p'un bynnag fo'r cyfnod hiraf.

6) Pan fydd cais am adolygiad wedi'i dderbyn o dan baragraff 5 uchod, bydd Rheolwr Gwaith Achos yn cynnal adolygiad ar ran Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor. Ni fydd yr adolygiad hwn yn ailystyried eich cwyn. Bydd y Rheolwr Gwaith Achos yn ystyried yr holl faterion a godwyd mewn perthynas â'ch adolygiad ac yn penderfynu a ddilynwyd Gweithdrefn Gwyno Gyffredinol Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored yn gywir.

- 7) O fewn deg diwrnod gwaith i ddyddiad y llythyr cydnabod, bydd Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor yn cwblhau adroddiad sy'n cynnwys y canlynol:
- Crynodeb o'ch cwyn a'ch rhesymau dros adolygu
 - Cefndir eich cwyn
 - Penderfyniad o ran diddymu penderfyniad Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored, ei ddiddymu'n rhannol neu ei gadarnhau. Eglurhad o'r rhesymau dros y penderfyniad
 - Argymhellion ar gyfer datrys lle bo hynny'n briodol

Unwaith y bydd Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor wedi cymeradwyo'r adroddiad, caiff copi ei anfon atoch chi, at Gymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored ac at y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd.

- 8) Os bydd Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor yn penderfynu diddymu penderfyniad Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored, yn rhannol neu'n llawn, caiff y gŵyn ei chyfeirio'n ôl at Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored, gydag argymhellion i ailystyried y gŵyn. Bydd Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored yn cyfathrebu'n uniongyrchol â chi o fewn deg diwrnod gwaith i dderbyn yr atgyfeiriad er mwyn nodi sut maent yn bwriadu rhoi'r argymhellion yn adroddiad Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor ar waith. Caiff copi o ohebiaeth Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored ei anfon at y Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr ac, o fewn 28 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr yn y swyddfa, caiff llythyr Cwblhau Gweithdrefnau (gweler isod) ei anfon.
- Os caiff penderfyniad Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored ei gadarnhau yn dilyn yr adolygiad, anfonir llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atoch ynghyd ag adroddiad Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor.
 - Os caiff cwyn ei derbyn neu ei derbyn yn rhannol, efallai y bydd y Cyfarwyddwr, Myfyrwyr hefyd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor o ran gweithdrefnau neu bolisiau sicrhau ansawdd. Caiff yr argymhellion hyn eu rhannu â chi er gwybodaeth yn ogystal ag Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored.
- 9) Bydd Y Brifysgol Agored yn gwneud pob ymdrech resymol i fodloni'r terfynau amser fel y'u nodir yn y weithdrefn hon; fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen amser ychwanegol ar gyfer achosion cymhleth er mwyn sicrhau bod yr hyn a gyflwynir yn cael ei adolygu'n drylwyr. Os bydd angen eithriad i'r terfyn amser safonol, rhoddir gwybod i chi yn ysgrifenedig am hyn a byddwch yn cael eich hysbysu'n rheolaidd ynglŷn â phryd y gallwch ddisgwyl ymateb ynghylch y canlyniad.

Cwblhau Gweithdrefnau

Caiff Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor ei benodi gan Gyngor Y Brifysgol Agored i weithredu fel unigolyn annibynnol er mwyn ymchwilio i gwynion yn erbyn Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored ac adrodd arnynt o dan adran 22(m) o Ddeddf Addysg 1994, a dyma'r awdurdod terfynol o ran cwynion o'r fath. Pan fyddwch wedi cwblhau Gweithdrefn Gwyno'r Brifysgol i Fyfyrrwyr, os byddwch yn dal yn anfodlon ar y penderfyniad hwn, gallwch gyfeirio eich cwyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch i wneud cais am adolygiad annibynnol o'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cwyn. Caiff y gweithdrefnau ar gyfer atgyfeirio eich achos at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol eu darparu yn y llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Crynodeb o'r newidiadau

Hydref 2015

- Diwygiwyd Adran 4: Y Weithdrefn Apeliadau Academaidd Newydd i Fyfyrrwyr; Cymeradwywyd gan y Senedd ym mis Medi 2015, ar gyfer astudiaethau sy'n dechrau ar ôl 1 Hydref 2015.

Hydref 2016

- Diwygiwyd Adrannau 1, 2, 3 a 4 i gynnwys cyfeiriad at fyfyrwyr prentisiaeth (Lloegr).
- Diwygiwyd Adrannau 2, 3 a 4 i ymestyn cyfnod y gwiriad cymhwysedd ar gyfer adolygiad o dri i ddeg diwrnod gwaith.
- Diwygiwyd Adrannau 2, 3 a 4: i gynnwys, ar y cam Adolygu, y gofyniad am esboniad dilys o'r rheswm pam na chyflwynwyd tystiolaeth newydd, neu elfen newydd o'r gŵyn, ar gam cynharach yn y broses.

Tachwedd 2016

- Diwygiwyd Adrannau 2, 3 a 4 i gynnwys hyperddolen i'r ffurflen ar-lein.
- Tynnwyd dolenni i wybodaeth nad yw'n bodoli mwyach.

Ebrill 2018

- Ychwanegwyd cyfeiriad at gyflwyno cwynion ac apeliadau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Diwygiwyd y wybodaeth Cyfrinachedd yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- Ychwanegwyd gwybodaeth am yr amserlen Cadw Data.
- Ychwanegwyd paragraff ychwanegol i bob adran yn cyfeirio at brentisiaethau, gan gynnwys manylion cyswllt diwygiedig.

Chwefror 2019


- Diwygiwyd Adran 4 i egluro'r broses apelio ar gyfer modiwlau gydag emTMAs.
- Diweddarwyd cyfeiriadau ar Fyrddau Arholi ac Asesu (EABs) i Baneli Canlyniadau Modiwlau (MRPs).

Tachwedd 2019

- Newid enw o OUSA i 'Cymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored'
- Cynnwys dysgwyr Cymwysterau Galwedigaethol a dysgwyr FutureLearn yn 'I bwy mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol'
- Mae'r adran Gwybodaeth Ategol bellach yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i gwynion ac apeliadau, yn hytrach na'i gosod ar wahân
- Astudio gyda FutureLearn – gwybodaeth newydd
- Dysgwyr Cymwysterau Galwedigaethol – gwybodaeth newydd
- Cynyddu'r amserlen ar gyfer ymateb i gwynion ffurfiol a chwynion cam olaf o 10 diwrnod gwaith i 15 diwrnod gwaith
- Cyngor i fyfyrwyr y bydd tystiolaeth a ystyrir ar gam ffurfiol y gweithdrefnau cwyno ac apelio yn cael ei darparu gyda'r Llythyr Penderfyniad (cwynion ac apeliadau), lle y caniateir hynny a lle y bo'n unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- Eglurhad o rôl y Rheolwr Gwaith Achos wrth adolygu achosion ar ran Cynrychiolydd yr Is-Ganghellor ar y cam Adolygu (cwynion ac apeliadau)
- Dileu'r cyfeiriad at Waith Cymdeithasol a Nyrsio

Atodiad 1 (o'r Gweithdrefnau Apeliadau Academaidd i Fyfyrrwyr)

Awdurdodau Academaidd Dirprwyedig



Version number: 1.2

Approved by: Head of Student Policy and Casework

Effective from: November 2019

Date for review: 1 August 2020

Atodiad 2 (o'r Gweithdrefnau Apeliadau Academaidd i Fyfyrrwyr)

Y weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiad gan Banel Adolygu Apeliadau Academaidd y Senedd

Ystyried adolygiad heb wrandawriad

- 1.1. Os ydych wedi cael cadarnhad bod achos eich Adolygiad wedi bodloni'r gofynion i gael ei ystyried ymhellach ac rydych wedi cyflwyno tystiolaeth newydd nad yw'r Awdurdod Academaidd Dirprwyedig wedi'i hystyried yn flaenorol, bydd Ysgrifennydd y Panel yn anfon y dystiolaeth honno ymlaen i'r awdurdod hwnnw ynghyd â chais iddo adolygu ei benderfyniad gwreiddiol gan ystyried y dystiolaeth newydd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r cais. Gall yr awdurdod academaidd gadarnhau neu ddiwygio ei benderfyniad gwreiddiol, gan roi rhesymau dros ei benderfyniad, a bydd yr Ysgrifennydd yn rhoi'r rhesymau hynny i chi yn ysgrifenedig.
 - Os bydd yr awdurdod academaidd yn cadarnhau ei benderfyniad, bydd eich cais am adolygiad yn mynd rhagddo fel y nodir isod oni bai eich bod yn rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd eich bod yn dymuno ei dynnu'n ôl.
 - Os bydd yr awdurdod academaidd yn diwygio ei benderfyniad ac yn rhoi'r canlyniad yr ydych yn gofyn amdano yn llawn, ni fydd eich adolygiad yn mynd rhagddo.
 - Os bydd yr awdurdod academaidd yn diwygio ei benderfyniad mewn unrhyw ffordd arall, rhoddir y dewis i chi dderbyn y penderfyniad diwygiedig hwnnw neu fynd ymlaen i wrandawriad o'ch adolygiad.
- 1.2. Ar unrhyw adeg cyn y gwrandawriad, os bydd Cadeirydd y Panel yn fodlon bod rhesymau digonol dros ddiddymu penderfyniad awdurdod academaidd heb wrandawriad, bydd gan y Cadeirydd yr awdurdod i ddiddymu'r penderfyniad hwnnw a'i atgyfeirio yn ôl at yr awdurdod academaidd o dan baragraff 4.7 isod.
- 1.3. Os byddwch yn penderfynu, ar unrhyw adeg cyn y gwrandawriad, nad ydych yn dymuno bwrw ymlaen â'r adolygiad, dylech roi gwybod i Ysgrifennydd y Panel cyn gynted â phosibl.

Version number: 1.2	Approved by: Head of Student Policy and Casework
Effective from: November 2019	Date for review: 1 August 2020

Paratoi ar gyfer gwrandawrio adolygiad

- 2.1. Oni bai bod paragraff 1.2 uchod yn berthnasol, bydd yr Ysgrifennydd yn galw cyfarfod o Banel Adolygu Apeliadau Academaidd y Senedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol a lle bynnag y bo modd o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y daeth cais derbyniadwy am adolygiad i law. Bydd yr Ysgrifennydd yn ymdrechu i drefnu'r gwrandawriad ar ddyddiad sy'n gyfleus i chi. Os na fydd yr Ysgrifennydd wedi llwyddo i drefnu dyddiad sy'n gyfleus i chi o fewn tri mis i ddyddiad y cais, gall y Panel gwrdd pan fydd yn gyfleus iddo a phenderfynu'r achos yn eich absenoldeb.
- 2.2. Bydd Rheolwr Gwaith Achos yn paratoi adroddiad i'r Panel ar y penderfyniad sy'n cael ei adolygu a'r materion a godwyd mewn perthynas â'r adolygiad, a all gynnwys argymhellion ar gyfer cynnal yr adolygiad a chyngor ynghylch unrhyw benderfyniad y gall y Panel ei wneud.
- 2.3. Bydd Ysgrifennydd y Panel yn eich hysbysu'n ysgrifenedig am ddyddiad y gwrandawriad a'ch hawl i gyflwyno eich ochr chi o'r achos a galw tystion, ac yn rhoi gwybod i chi pryd y gallwch ddisgwyl cael y canlynol (o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad):
 - a) cofnod o benderfyniad yr awdurdod academaidd, wedi'i baratoi gan yr ysgrifennydd a'i gymeradwyo gan y cadeirydd;
 - b) datganiad ysgrifenedig sy'n amlinellu eich rhesymau dros apelio;
 - c) unrhyw dystiolaeth a ddarparwyd gennych i ategu eich apêl;
 - d) copi o adroddiad yr ymchwiliad a baratowyd gan yr Ysgrifennydd, gan gynnwys unrhyw argymhellion neu gyngor sy'n codi o'r adroddiad hwnnw;
 - e) copïau o'r dogfennau y bydd y Brifysgol yn eu cyflwyno i'r Panel; ac
 - f) rhestr o unrhyw dystion neu gynghorwyr arbenigol y mae'r Brifysgol yn disgwyl eu galw a chrynodeb o'r dystiolaeth y byddant yn ei chyflwyno.
- 2.4. Byddwch yn anfon y canlynol at Ysgrifennydd y Panel, o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad gwrandawriad yr apêl:
 - a) enwau unrhyw dystion perthnasol yr ydych yn dymuno eu galw, ynghyd â chrynodeb o'r dystiolaeth y byddant yn ei chyflwyno; ac
 - b) enw ffrind, cynghorydd neu gynrychiolydd enwebedig (os o gwbl) yr ydych efallai am iddynt fod yn bresennol.
- 2.5. Os bydd y Cadeirydd o'r farn eich bod yn cynnig galw unrhyw dyst sy'n bwriadu rhoi tystiolaeth nad yw'n berthnasol i unrhyw fater a godwyd yn eich cais am adolygiad a'ch rhesymau dros adolygu, bydd yr Ysgrifennydd yn eich hysbysu'n ysgrifenedig cyn y gwrandawriad ei bod yn bosibl na chaniateir i'r tyst arfaethedig gyflwyno tystiolaeth yn y gwrandawriad neu y bydd y dystiolaeth a gyflwynir gan y tyst wedi'i chyfyngu i'r ffeithiau hynny sy'n berthnasol i'r materion i'w hystyried yn yr adolygiad.

Yn y gwrandawriad

3.1. Ni fydd yr adolygiad yn ailystyried eich apêl. Bydd y Panel yn pwysu a mesur p'un a ddilynwyd y broses apelio yn gywir a ph'un a ystyriwyd yr holl faterion a godwyd yn eich apêl; gan gynnwys i ba raddau:

- na chafodd tystiolaeth berthnasol ei hystyried; neu
- y cafodd tystiolaeth amherthnasol ei hystyried; neu
- y cafodd unrhyw reoliadau, polisiau neu weithdrefnau perthnasol gan y Brifysgol eu cymhwysu'n gywir; neu
- na chawsoch eglurhad llawn a chliir o'r rhesymau dros wneud y penderfyniad; neu
- roedd tuedd, neu duedd debygol, wrth wneud y penderfyniad; neu
- y cafodd y penderfyniad ei wneud gan unigolyn neu gorff nad oedd y cyfrifoldeb neu'r awdurdod cywir ganddynt; neu
- nad oedd y weithdrefn a ddilynwyd yn deg nac yn ddigonol; neu
- nad oedd y penderfyniad yn un a oedd yn rhesymol i'r Brifysgol ei wneud, o dan yr holl amgylchiadau.

3.2. Mae gennych hawl i fynd i'r gwrandawriad gydag unrhyw unigolyn yr ydych wedi'i enwebu o dan baragraff 2.4 uchod.

3.3. Yn amodol ar gytundeb ymlaen llaw, gall myfyrwyr a ffrindiau, cynghorwyr neu gynrychiolwyr enwebedig fod yn bresennol mewn gwrandawriadau yn bersonol a/neu dros y ffôn a/neu drwy unrhyw gyfrwng electronig rhesymol a/neu gallant gyflwyno tystiolaeth y Os byddwch yn penderfynu peidio â bod yn bresennol, gellir cynnal y gwrandawriad yn eich absenoldeb neu ym mhresenoldeb eich ffrind, cynghorydd neu gynrychiolydd enwebedig yn unig.

3.4. Rhoddir cyfle i chi neu'ch ffrind, cynghorydd neu gynrychiolydd enwebedig gyflwyno eich achos yn y gwrandawriad yn bersonol a/neu drwy unrhyw un o'r dulliau a restrir ym mharagraff 3.3, yn amodol ar gytundeb ymlaen llaw. Efallai y bydd y Pwyllgor yn gofyn cwestiynau i chi (ond nid i'ch ffrind, cynghorydd neu gynrychiolydd enwebedig, oni bai eich bod wedi rhoi caniatâd).

3.5. Mae gennych chi a'r Panel hawl i holi unrhyw dyst neu gynghorydd arbenigol a elwir.

3.6. Gall y Panel bennu terfynau amser ar ddatganiadau llafar ac ar yr amser a dreulir yn holi unrhyw dystion.

3.7. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau presenoldeb ac ymddygiad unrhyw dyst a elwir ar eich rhan. Bydd gan Gadeirydd y Panel hawl i wahardd unrhyw dyst, ffrind, cynghorydd neu gynrychiolydd y mae ei ymddygiad yn tarfu ar y gwrandawriad neu nad yw ei dystiolaeth yn berthnasol i'r materion sy'n cael eu hystyried.

- 3.8. Gall y Panel hefyd ofyn am unrhyw dystiolaeth arall sydd wedi dod i'r amlwg ers gwrandawriad cyntaf yr achos, neu unrhyw dystiolaeth y mae'r Panel yn tybio ei bod yn berthnasol i'r adolygiad, neu ystyried unrhyw dystiolaeth o'r fath.
- 3.9. Gall y Panel ohirio'r gwrandawriad tan ddyddiad arall os bydd yn penderfynu bod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau eich bod yn cael gwrandawriad teg, gan gynnwys at ddiben cynnal ymchwiliadau pellach a chasglu rhagor o dystiolaeth. Rhaid ailalw'r gwrandawriad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac, mewn unrhyw achos, o fewn 28 diwrnod i'r gwrandawriad a ohiriwyd.

Penderfyniadau'r Panel

- 4.1. Os byddwch chi a/neu unrhyw ffrind, cyngorydd neu gynrychiolydd enwebedig yn bresennol yn y gwrandawriad, rhaid i chi a hwy ac unrhyw dyst neu gynghorydd sy'n bresennol adael yr ystafell tra bod y Pwyllgor yn penderfynu canlyniad yr adolygiad.
- 4.2. Rhaid i'r Panel ystyried unrhyw gyngor a roddir gan yr Ysgrifennydd a gall wneud un neu ragor o'r penderfyniadau canlynol:
 - a) gwrthod (yn llawn neu'n rhannol) neu gadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol; a/neu
 - b) yn achos apêl yn erbyn penderfyniad sy'n ymwneud â chamymddwyn academiaidd a/neu gamymddwyn yn ymwneud ag ymchwil, diddymu (yn llawn neu'n rhannol) neu gadarnhau unrhyw gosb a gymhwyswyd; a/neu
 - c) gwrthod yr apêl, yn llawn neu'n rhannol;
- 4.3. Caiff penderfyniad y Panel ei bennu drwy fwyafrif syml. Os bydd y bleidlais yn gyfartal, gwneir y penderfyniad o'ch plaid chi.
- 4.4. Rhaid i aelodau'r Panel wneud eu penderfyniad yn seiliedig ar b'un a ydynt yn fodlon, yn ôl yr hyn sy'n debygol, bod yr holl resymau dros apelio a amlinellwyd yn eich cais am adolygiad, neu unrhyw rai ohonynt, wedi cael eu cadarnhau'n llawn neu'n rhannol gan y dystiolaeth.
- 4.5. Os bydd aelodau'r Panel yn fodlon ar hynny, rhaid iddynt ystyried ymhellach p'un a yw'r rhesymau hynny'n peri digon o amheuaeth ynghylch y penderfyniad sy'n cael ei apelio i'w wneud yn benderfyniad y byddai'n afresymol i'r Brifysgol ddibynnu arno. Felly, gall y Panel benderfynu bod modd cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol yn llawn neu'n rhannol er bod rhesymau dros apelio wedi cael eu cadarnhau os ydynt o'r farn na fyddai'r materion hynny wedi gwneud gwahaniaeth perthnasol i benderfyniad yr Awdurdod Academiaidd Dirprwyedig.

- 4.6. Rhoddir gwybod i chi yn ysgrifenedig beth yw penderfyniad y Panel o fewn 10 diwrnod i'r gwrandawriad, yn ogystal â'r rhesymau dros y penderfyniad yn llawn, gan gynnwys
- Crynodeb o'ch apêl a'ch rhesymau dros adolygu;
 - Cefndir eich apêl;
 - Penderfyniad ynghylch p'un a ddylid cadarnhau'r apêl, ei chadarnhau'n rhannol, neu beidio â'i chadarnhau.
 - Eglurhad o'r rhesymau dros y penderfyniad; ac
 - Argymhellion ar gyfer datrys lle bo hynny'n briodol
- 4.7. Os bydd y panel yn penderfynu y dylid diddymu'r penderfyniad yn llawn neu'n rhannol, caiff yr apêl ei chyfeirio'n ôl i'r Awdurdod Academaidd Dirprwyedig ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad a, lle y bo'n briodol, unrhyw argymhellion ar gyfer ystyried yr apêl ymhellach.
- 4.8. fewn 10 diwrnod gwaith i'r atgyfeiriad, rhaid i'r Awdurdod Academaidd Dirprwyedig ailystyried yr apêl yn unol â cham apelio academaidd ffurfiol yr adran berthnasol o'r weithdrefn hon gan ystyried canfyddiadau'r adolygiad. Bydd penderfyniad awdurdod academaidd yn dilyn adolygiad gan y Panel yn derfynol.

Cwblhau Gweithdrefnau

- 5.1. Yr Awdurdodau Academaidd Dirprwyedig yw awdurdod terfynol y Brifysgol o ran apeliadau academaidd. Os byddwch yn dal yn anfodlon ar y penderfyniad hwn ar ôl cwblhau proses adolygu'r Brifysgol, gallwch gyfeirio eich apêl at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch i wneud cais am adolygiad annibynnol o'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch apêl.
- 5.2. Anfonir llythyr cwblhau gweithdrefnau atoch o dan yr amgylchiadau canlynol:
- Os na dderbynnir eich cais am adolygiad, gallwch ofyn am lythyr cwblhau gweithdrefnau o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad hwnnw. Anfonir y llythyr atoch o fewn 28 diwrnod i'r cais hwnnw.
 - Os caiff penderfyniad yr Awdurdod Academaidd Dirprwyedig ei gadarnhau yn dilyn adolygiad, anfonir llythyr cwblhau gweithdrefnau atoch ynghyd â phenderfyniad Panel Adolygu Apeliadau Academaidd y Senedd.
 - Os caiff penderfyniad Awdurdod Academaidd Dirprwyedig ei wrthod yn dilyn adolygiad, anfonir llythyr cwblhau gweithdrefnau atoch o fewn 28 diwrnod i dderbyn

Eglurhad pellach

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cynnwys a ddarperir yn y ddogfen hon a sut i'w ddehongli, cysylltwch â'ch Tîm Cymorth i Fyfyrrwyr trwy StudentHome sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i gynghori ar weithredu polisi. Fel arall, gallwch gysylltu â'ch Tîm Cymorth i Fyfyrrwyr drwy'r opsiwn 'Cysylltu â Ni' ar y Ganolfan Gymorth os ydych yn fyfyrwr cyfredol yn y Brifysgol Agored

Fformat amgen

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Cymorth i Fyfyrrwyr trwy <http://www.open.ac.uk/contact/> (ffôn +44 (0) 300 303 5303), neu'ch Tîm Cymorth Myfyrrwyr ymroddedig trwy StudentHome os ydych chi'n fyfyrwr cyfredol yn y Brifysgol Agored